COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

Comisiwn Ffiniau
Llywodraeth Leol
i Gymru

Local Government
Boundary Commission
for Wales

AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL
CYNIGION DRAFFT

SIR DDINBYCH

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER SIR DDINBYCH

CYNIGION DRAFFT

1. CYFLWYNIAD

2. CRYNODEB O'R CYNIGION

3. CWMPAS AC AMCAN YR AROLWG

4. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD CYN Y CYNIGION DRAFFT

5. ASESIAD

6. CYNIGION

7. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

ATODIAD 1 RHESTR TERMAU
ATODIAD 2 AELODAETH BRESENNOL Y CYNGOR
ATODIAD 3 CYFARWYDDYD Y GWEINIDOG A LLYTHYR YCHWANEGOL
ATODIAD 4 CRYNODEB O'R CYNRYCHIOLAETHAU CYCHWYNNOL
ATODIAD 5 AELODAETH ARFAETHEDIG Y CYNGOR

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif Ffôn: (029) 2039 5031
Rhif Ffacs: (029) 2039 5250
E-bost: cflll.cymru@cymru.gsi.gov.uk
www.cflll-cymru.gov.uk

RHAGAIR

Bydd y sawl sydd wedi derbyn yr adroddiad hwn sy'n cynnwys ein Cynigion Drafft eisoes yn ymwybodol o'r Arolwg o Drefniadau Etholiadol hwn ar gyfer ardaloedd yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Egwyddor bwysig ar gyfer ein gwaith yw ceisio cyflawni cydbwysedd democrataidd gwell yn ardaloedd pob cyngor fel y bo pob pleidlais a fwrir mewn etholiad, cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol, o'r un gwerth â phob un arall yn ardal y cyngor. Mae cyflawni'r nod hwn, ynghyd â mesurau eraill, yn arwain at lywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Ar ddechrau'r broses adolygu hon rydym wedi canfod gwahaniaethau sylweddol o ran cymhareb nifer etholwyr i gynghorwyr, nid yn ardaloedd cynghorau gwahanol yng Nghymru yn unig ond hefyd yn ardaloedd y cynghorau eu hunain.

Mae nifer o ffactorau sy'n cyfyngu ar y modd y mae'r Comisiwn yn ymgymryd â'i waith:

- Ardaloedd cymunedol yw'r sylfeini ar gyfer adrannau etholiadol y mae Cymru wedi'i rhannu iddynt. Sefydlwyd yr ardaloedd cymunedol hyn dros 30 mlynedd yn ôl ac er gwaethaf yr holl waith a wnaed gan rai awdurdodau lleol a gennym ninnau, mae nifer o leoedd o hyd lle nad yw'r ardaloedd cymunedol yn adlewyrchu patrwm presennol bywyd cymunedol.

- Mae cywirdeb y wybodaeth am y nifer o breswylwyr yn ardal pob cyngor ymhen pum mlynedd yn her i bawb – mae'n anodd rhagweld y dyfodol. Mae'r Comisiwn felly wedi mabwysiadu ymagwedd wyliadwrus wrth ddefnyddio'r rhagamcaniadau hyn.

- Mae'r rheolau cyfreithiol rydym yn gorfod cydymffurfio â hwy yn eithaf llym hefyd ac unwaith eto yn ein cyfyngu o ran beth y gallwn ei wneud ar gyfer pob adran etholiadol.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu ein hargymhellion cychwynnol ar yr hyn y mae'n rhaid ei wneud yn ardal y cyngor hwn. Rydym am ddarparu cydbwysedd democrataidd gwell ynghyd â threfniadau etholiadol sy'n cyfrannu at lywodraeth leol effeithiol a chyfleus ym mha le bynnag yng Nghymru rydych yn byw.

Paul Wood
Cadeirydd

1. CYFLWYNIAD

1.1 Yr ydym ni, aelodau Comisiwn Ffiniau Lywodraeth Leol i Gymru, wedi cwblhau'r rhan gyntaf o'r arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ddinbych ac yn cyflwyno ein Cynigion Drafft ar gyfer trefniadau etholiadol y dyfodol. Ceir rhestr termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 1. Ar hyn o bryd, mae gan Sir Ddinbych etholaeth o 74,239. Ar hyn o bryd, fe'i rhennir yn 30 adran (16 un-aelod a 14 aml-aelod) sy'n ethol 47 o gynghorwyr. Y gymhareb gyffredinol bresennol o aelodau i etholwyr yn Sir Ddinbych yw 1:1,580. Nodir y trefniadau etholiadol presennol yn Atodiad 2.

2. CRYNODEB O'R CYNIGION

2.1 Rydym yn cynnig gostyngiad ym maint y cyngor o 47 aelod etholedig i 40 a newid i drefn yr adrannau etholiadol a fydd yn cyflawni gwelliant sylweddol mewn cydraddoldeb etholiadol ar draws Sir Ddinbych.

3. CWMPAS AC AMCAN YR AROLWG

3.1 Yn unol ag Adran 57 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn, ar gyfnodau nad ydynt yn llai na deng mlynedd a dim yn fwy na phymtheg mlynedd, i adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr holl brif ardaloedd yng Nghymru at ddibenion ystyried a ddylid gwneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru i newid y trefniadau etholiadol hynny ai peidio.

3.2 Derbyniodd y Comisiwn gyfarwyddyd gan Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno adroddiad ar yr arolwg o drefniadau etholiadol Sir Ddinbych erbyn 30 Mehefin 2011.

Trefniadau Etholiadol

3.3 Diffinnir "trefniadau etholiadol" prif ardal yn adran 78 o Ddeddf 1972 fel:

i) cyfanswm y cynghorwyr i'w hethol i'r cyngor;

ii) nifer yr adrannau etholiadol a'u ffiniau;

iii) nifer y cynghorwyr i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol; ac

iv) enw unrhyw adran etholiadol.

Rheolau i Gydymffurfio â Hwy wrth Ystyried Trefniadau Etholiadol

3.4 Yn unol ag Adran 78, cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol gwneud hynny, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â'r rheolau a nodir yn Atodiad 11 o'r Ddeddf. Mae'n ofynnol, yn unol â'r rhain, fod y Comisiwn yn trefnu bod un aelod ar gyfer pob adran etholiadol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall y Gweinidog roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn ystyried adrannau etholiadol aml-aelod ar gyfer yr holl brif ardal neu rannau ohoni.

3.5 Yn ôl y rheolau, mae'n ofynnol hefyd:

Ystyried unrhyw newid yn nifer neu ddosbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn y brif ardal sy'n debygol o ddigwydd yn ystod y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl ystyried y trefniadau etholiadol:

i) yn ddarostyngedig i baragraff (ii), bydd nifer yr etholwyr llywodraeth leol yr un neu mor agos â phosibl, ym mhob adran etholiadol yn y brif ardal;

ii) lle bo un neu fwy o adrannau aml-aelod, bydd cymhareb etholwyr llywodraeth leol i nifer y cynghorwyr yr un neu mor agos â phosibl ym mhob adran etholiadol yn y brif ardal (gan gynnwys unrhyw adran nad yw'n un aml-aelod);

iii) bydd pob ward gymunedol sydd â chyngor cymunedol (naill ai ar wahân neu'n gyffredin) yn gyfan gwbl y tu mewn i un adran etholiadol; a

iv) bydd unrhyw gymuned na rennir yn wardiau cymunedol yn gyfan gwbl y tu mewn i un adran etholiadol.

Wrth ystyried y trefniadau etholiadol, rhaid i ni ystyried (a) dymunoldeb pennu ffiniau sydd ac a fydd yn hawdd eu hadnabod; a (b) unrhyw gysylltiadau lleol a dorrir wrth lunio unrhyw ffin benodol.

Cyfarwyddiadau'r Gweinidog

3.6 Derbyniodd y Comisiwn gyfarwyddyd gan y Gweinidog y dylai ystyried dymunoldeb adrannau etholiadol aml-aelod ym mhob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.

3.7 Derbyniodd y Comisiwn y cyfarwyddiadau canlynol gan y Gweinidog hefyd o ran cynnal yr arolwg:

(a) ystyrir bod angen lleiafswm o 30 cynghorydd er mwyn rheoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol;

(b) er mwyn lleihau'r risg o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn mynd yn afrosgo ac yn anodd ei reoli, fel arfer mae angen uchafswm o 75 cynghorydd i reoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol;

(c) ystyrir mai cael adrannau etholiadol lle nad yw'r gymhareb rhwng cynghorydd ac etholwyr yn is nag 1:1,750 y dylai'r nod fod;

(d) ystyrir na ddylid gwneud penderfyniadau i newid y drefn bresennol o adrannau etholiadol un aelod ac aml-aelod ond yn un lle bo cynigion o'r fath ar gyfer newid yn cael eu cefnogi'n gyffredinol gan yr etholaeth cyn belled ag y gellir cael eu barn o ran cyflawni'r gofynion ymgynghori a nodir yn Adran 60 o'r Ddeddf; ac

(e) ystyrir bod y Comisiwn wrth gynnal arolygon yn unol â Rhan 4 o'r Ddeddf yn cydymffurfio â pharagraff 1A o Atodiad 11 o'r Ddeddf, hynny yw, y Rheolau.

Ceir holl destun y Cyfarwyddiadau yn Atodiad 3. Cadarnhawyd y Cyfarwyddiadau ymhellach mewn llythyr gan y Gweinidog dyddiedig 12 Mai 2009. Mae copi o'r llythyr hwn yn dilyn y Cyfarwyddiadau yn Atodiad 3.

Newidiadau Llywodraeth Leol

3.8 Ers yr arolwg diwethaf bu dau newid i ffiniau llywodraeth leol yn Sir Ddinbych:

- 2003 Rhif 3134 (W.300) Gorchymyn Sir Ddinbych (Rhuddlan, y Rhyl, Diserth a Phrestatyn) 2003; a
- Gorchymyn Cymuned y Rhyl 2006, a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych.

3.9 Gwnaeth Gorchymyn 2003 Rhif 3134 (W.300) newidiadau i'r ffin rhwng cymunedau Rhuddlan a'r Rhyl, y ffin rhwng cymunedau Rhuddlan a Phrestatyn, a'r ffin rhwng cymunedau Diserth a Phrestatyn, a gwnaeth newidiadau canlyniadol i'r adrannau etholiadol yn yr ardal.

3.10 Gwnaeth Gorchymyn Cymuned y Rhyl 2006 rannu Ward De Ddwyrain y Rhyl yn ddwy ward newydd, a'u henwi yn Tŷ Newydd a Threllewellyn. Cafodd gweddill wardiau'r Rhyl eu hailenwi fel a ganlyn:

- Ailenwyd ward y De yn ward Derwen
- Ailenwyd ward y De Canolog yn ward Pendyffryn
- Ailenwyd ward y De Orllewin yn ward Cefndy
- Ailenwyd ward y Dwyrain yn ward Brynhedydd
- Ailenwyd ward y Dwyrain Canolog yn ward Plastirion
- Ailenwyd ward y Gorllewin yn ward Foryd
- Ailenwyd ward y Gorllewin Canolog yn ward Bodfor.

Byddwn yn ystyried y newidiadau hyn yn ein hystyriaeth o'r trefniadau etholiadol newydd ar gyfer Sir Ddinbych.

Gweithdrefn

3.11 Mae Adran 60 o Ddeddf 1972 yn nodi canllawiau gweithdrefnol i'w dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol ag Adran 60 o Ddeddf 1972, ar 26 Chwefror 2009, ysgrifenasom at Gyngor Sir Ddinbych, yr holl gynghorau cymuned yn yr ardal, Aelodau Seneddol yr etholaethau lleol, Aelodau Cynulliad yn yr ardal a phartïon eraill â diddordeb i roi gwybod iddynt am ein bwriad i gynnal yr arolwg ac i ofyn am eu barn gychwynnol. Gwahoddasom y Cyngor Sir i gyflwyno cynllun neu gynlluniau awgrymedig ar gyfer y trefniadau etholiadol newydd. Gwnaethom roi cyhoeddusrwydd hefyd i'n bwriad i gynnal yr arolwg mewn papurau newydd â chylchrediad yn y Sir a gofynasom i Gyngor Sir Ddinbych arddangos nifer o hysbysiadau cyhoeddus yn eu hardal. Trefnasom hefyd fod copïau o'n llyfryn arweiniad ar arolygon etholiadol ar gael. Yn ogystal, gwnaethom gyflwyniad i gynghorwyr Sir a chynghorwyr Cymuned gan esbonio'r broses adolygu.

4. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD CYN Y CYNIGION DRAFFT

4.1 Rydym wedi derbyn cynrychiolaethau gan Gyngor Sir Ddinbych, Cyngor Cymuned Cefn Meiriadog, Cyngor Cymuned Cynwyd, Cyngor Tref y Rhyl, y Grŵp Ceidwadol ar Gyngor Sir Ddinbych, Ysgol Gynradd Llandrillo, Mr Leonard Harrison, Mrs Margaret Phillips, Mr John Hughes OBE, Mr TW Gillespie, a Mr Cefyn H Williams. Ystyriasom yr holl gynrychiolaethau hyn yn ofalus cyn llunio'n cynigion. Ceir crynodeb o'r cynrychiolaethau hyn yn Atodiad 4.

5. ASESIAD

Cymhareb cynghorwyr i etholwyr

5.1 Mae cyfarwyddiadau'r Gweinidog yn cynnwys y canlynol yn 3.7 (a): "Ystyrir mai cyflawni adrannau etholiadol lle mae'r gymhareb rhwng cynghorwyr ac etholwyr ddim is nag 1:1,750 y dylai'r nod fod." Rydym yn cydnabod y darperir y cyfarwyddiadau fel arweiniad ac ni ddylid eu defnyddio heb ystyried amgylchiadau arbennig yr ardal benodol: mae'n bosibl y bydd amgylchiadau yn ymwneud â thopograffeg neu boblogaeth ac ati o ardal, lle ystyrir bod cymhareb sy'n is nag 1:1,750 yn briodol. Esboniwyd hyn yn y llythyr gan y Gweinidog (Atodiad 3) a ddywedodd: "Golyga hyn fod y gymhareb yn parhau fel y nod i geisio ei chyflawni ac nid fel y nod i'w chyflawni ym mhob achos. Wrth wneud hynny, dylid talu sylw i gymunedau lleol gael eu cynrychiolaeth adnabyddadwy hyd yn oed pan na ellir cyflawni'r gymhareb bob tro o 1,750 etholwyr/cynghorydd". Yn absenoldeb amgylchiadau arbennig, byddwn yn ceisio cynnig trefniadau etholiadol lle na fydd y gymhareb yn disgyn yn is nag 1:1,750. Ni chawn ein cyfyngu yn yr un modd gan y cyfarwyddyd hwn rhag cynnig trefn etholiadol lle mae'r gymhareb, mewn achosion priodol, yn uwch nag 1:1,750. Trwy'r arolwg hwn byddwn yn cadw'r gymhareb o 1:1,750 mewn cof, ac ni fyddwn fel arfer yn ystyried ei bod yn rhaid ei defnyddio yn benodol ym mhob achos.

Maint y cyngor

5.2 Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn cynnwys 47 aelod ac mae hyn yn bodloni'r meini prawf a nodir yng nghyfarwyddiadau'r Gweinidog (Atodiad 3). Y gymhareb gyfredol gyffredinol o gynghorwyr i etholwyr ar gyfer y cyngor yw 1:1,580. Ar hyn o bryd, mae 16 adran un aelod a 14 adran aml-aelod. Nodasom fod ar hyn o bryd 22 adran etholiadol lle mae'r gymhareb o gynghorwyr i etholwyr yn is nag 1:1,750. Nodasom hefyd, o ran y gymhareb rhwng cynghorwyr ac etholwyr, fod amrywiaeth eang yn y gymhareb gyffredinol bresennol o 1:1,580 yn amrywio o 40% yn is (Llandrillo) i 26% yn fwy na hyn (De Ddwyrain y Rhyl).

5.3 Adolygasom y trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ddinbych yn sgil cyfarwyddiadau'r Gweinidog i'n harwain, ac ystyriasom y cynrychiolaethau a gyflwynwyd i ni. Yn ein trafodaethau ystyriasom y gymhareb rhwng nifer yr etholwyr llywodraeth leol a nifer y cynghorwyr i'w hethol gyda'r nod o gynnig newidiadau er mwyn sicrhau bod nifer yr etholwyr llywodraeth leol yr un peth neu mor agos ag y bo modd, ym mhob adran yn y brif ardal. Archwiliasom yr adrannau aml-aelod presennol er mwyn ystyried a ddylen ni argymell creu adrannau un aelod. Ystyriasom faint a chymeriad yr

awdurdod ac ystod eang o ffactorau eraill gan gynnwys dwysedd y boblogaeth, y dopograffeg leol, cysylltiadau ffyrdd a chysylltiadau lleol.

5.4 Nodasom fod Cyngor Sir Ddinbych yn ei gynrychiolaeth yn ystyried na ddylid gostwng nifer y cynghorwyr gan fod llwyth gwaith presennol y cynghorwyr yn mynd yn anodd ei drin. Gofynnant i'r Comisiwn ystyried materion fel teneurwydd y boblogaeth wledig, pellteroedd teithio mewn adrannau etholiadol gwledig mawr a materion yn ymwneud ag ardaloedd trefol ac ardaloedd o amddifadedd yr ystyriant eu bod yn effeithio ar lwyth gwaith y cynghorwyr. Ystyriai'r Cyngor hefyd fod cynrychiolaeth un aelod mewn adrannau gwledig yn gweithio'n dda, ac na fyddai adrannau gwledig aml-aelod yn cael croeso gan y cyhoedd. Fel y nodwyd ym mharagraff 5.2 uchod, ystyriasom yr amrywiaeth eang o gymarebau rhwng adrannau etholiadol sy'n bodoli eisoes, ac rydym o'r farn, ar ôl ystyried ffactorau fel teneurwydd y boblogaeth wledig, materion trefol a chysylltiadau cymunedol hyd yn oed, na ddylid cynnal y trefniadau cyfredol. Wrth ystyried y trefniadau etholiadol newydd ar gyfer Sir Ddinbych rydym felly wedi rhoi mwy o bwys i'r egwyddor o gydraddoldeb etholiadol nag i gadw'r nifer presennol o gynghorwyr.

5.5 Am y rhesymau a nodir isod, credwn o safbwynt budd i lywodraeth leol effeithiol a chyfleus y byddai cyngor o 40 aelod yn briodol i gynrychioli Sir Ddinbych. O ganlyniad golyga'r penderfyniad hwn ynghylch maint y cyngor y cynrychiolir 1,856 o etholwyr ar gyfartaledd gan bob cynghorydd.

Nifer yr Etholwyr

5.6 Mae nifer yr etholwyr ar gyfer 2009 a'r amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn 2014 yn ffigurau a gyflwynwyd i ni gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae amcangyfrif y ffigurau a gyflwynwyd i ni gan Gyngor Sir Ddinbych yn dangos cynnydd o 3,953 yn yr etholaeth, o 74,239 i 78,192. O ystyried y sefyllfa economaidd gyfredol, ystyriwn ei bod yn debygol na fydd ond cynnydd cymedrol yn nifer yr etholwyr yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf a byddai'n rhesymol ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal ar sail y ffigurau etholiadol cyfredol gyda rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn caniatáu cynnydd mwy cymedrol i ddigwydd yn y tymor byr. Gellir ailystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardaloedd hyn yn ddiweddarach, pe bai newidiadau sylweddol yn nifer yr etholwyr yn gwarantu arolwg pellach.

Adrannau Etholiadol

5.7 Rydym wedi ystyried trefniadau etholiadol adran etholiadol bresennol **Diserth** a chymhareb nifer yr etholwyr llywodraeth leol i nifer y cynghorwyr i'w hethol a chynigiwn fod y trefniadau presennol yn parhau. Ystyriasom newidiadau i'r adrannau etholiadol sy'n weddill. Ceir manylion o'r trefniadau etholiadol cyfredol ar gyfer **Diserth** yn Atodiad 2.

Llandrillo a Chorwen

5.8 Mae adran etholiadol Llandrillo yn cynnwys Cymuned Llandrillo (490 o etholwyr, rhagamcenir 500) a Chymuned Cynwyd (462 o etholwyr, rhagamcenir 471) ac mae ganddi gyfanswm o 952 o etholwyr a gynrychiolir gan 1 cynghorydd sy'n rhoi cymhareb sydd 40% yn is na chymhareb gyfartalog gyfredol y sir ac sydd 46% yn is

na'r gymhareb 1:1,750. Nodasom y cynrychiolaethau gan Gyngor Cymuned Cynwyd, y Cynghorydd Williams (Llandrillo), Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llandrillo (gan amgáu deiseb â 201 o lofnodion), a thri o drigolion ardal Cynwyd/Llandrillo (gan gynnwys deiseb ag 16 o enwau) pob un ohonynt yn cefnogi cadw adran etholiadol bresennol Llandrillo. Mae'r cynrychiolaethau'n cyfeirio at nodweddion Cynwyd a Llandrillo sy'n eu gwneud yn wahanol i Gorwen, sef yr unig ardal gyffiniol yn Sir Ddinbych. Rydym, fodd bynnag, wedi ystyried y gwahaniaeth sylweddol rhwng y gymhareb cynghorydd i etholwyr yn adran etholiadol Llandrillo a holl ardaloedd eraill Sir Ddinbych, ac rydym o'r farn, ar ôl ystyried yr holl ffactorau a godwyd yn y cynrychiolaethau hyd yn oed, na ddylid cynnal y trefniadau cyfredol.

5.9 Er mwyn lleihau lefel y gwahaniaeth, ystyriasom gyfuno adran etholiadol Llandrillo gydag adran etholiadol gydffiniol. Yr unig ardal arall sydd gerllaw adran etholiadol Llandrillo yw adran etholiadol Corwen, sy'n cynnwys Cymuned Corwen sydd â 1,889 o etholwyr (rhagamcenir 1,927) a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sy'n rhoi cymhareb 20% yn uwch na chymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Mae dwy ward gymunedol gan Gymuned Corwen; Ward Uchaf (1,244 o etholwyr, rhagamcenir 1,269) a Ward Isaf (645 o etholwyr, rhagamcenir 658). Byddai cyfuno Ward Uchaf Cymuned Corwen ac adran etholiadol Llandrillo yn ffurfio adran â chanddi gyfanswm o 2,196 o etholwyr, a phe bai 1 cynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb sydd 18% yn uwch na chymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Nodasom fod cyswllt ffordd dda rhwng Llandrillo a Chorwen Uchaf (ar hyd y B4401) a bod Afon Dyfrdwy'n cysylltu'r ddwy ardal hefyd. Yr enw sydd wedi'i awgrymu ar gyfer yr adran etholiadol newydd hon yw **Afon Dyfrdwy** er y byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Llangollen a Chorwen

5.10 Mae adran etholiadol Corwen yn cynnwys Cymuned Corwen sydd â 1,889 o etholwyr a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb sydd 20% yn uwch na chymhareb gyfartalog gyfredol y Sir. Byddai'r cynnig ym mharagraff 5.9 uchod i gynnwys Ward Uchaf Cymuned Corwen yn adran etholiadol arfaethedig Afon Dyfrdwy yn gadael y Ward Isaf (645 o etholwyr, rhagamcenir 658) y tu allan i adran etholiadol. Mae adran etholiadol gyffiniol Llangollen yn cynnwys Cymuned Llangollen (3,018 o etholwyr, rhagamcenir 3,159) a Chymuned Llandysilio (329 o etholwyr, rhagamcenir 336) â chyfanswm o 3,347 o etholwyr (rhagamcenir 3,495) a gynrychiolir gan 2 gynghorydd, sef cymhareb o 1:1,674 sydd 6% yn uwch na chymhareb gyfartalog y sir. Byddai cyfuno Ward Isaf Cymuned Corwen ag adran etholiadol Llangollen yn ffurfio adran â chyfanswm o 3,992 o etholwyr (rhagamcenir 4,153), a phe bai 2 gynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1: 1,996 sydd 8% yn uwch na chymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Nodasom fod cyswllt ffordd dda rhwng Llangollen a Chorwen Isaf (ar hyd yr A5) ac mae Afon Dyfrdwy'n cysylltu'r ddwy ardal hefyd. Yr enw sydd wedi'i awgrymu ar gyfer yr adran etholiadol newydd hon yw **Glyn Dyfrdwy** ond byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

5.11 Effaith ein cynigion ar gyfer adrannau etholiadol Afon Dyfrdwy (5.9 uchod) a Glyn Dyfrdwy yw gwahanu dwy ward Cymuned Corwen sydd gyda'i gilydd ar hyn o bryd yn adran etholiadol Corwen. Mae'n ofynnol ein bod yn ystyried unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan ein cynigion, ond ar hyn o bryd nid oes gennym

fesur i ba raddau y gallai hyn fod yn ffactor wrth i ni ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal hon. Croesawn gynrychiolaethau ar y mater hwn.

Llanarmon-yn-lâl/Llandegla, Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal a Llanfair Dyffryn Clwyd/Llangynhafal

5.12 Mae adran etholiadol Llanarmon-yn-lâl/Llandegla yn cynnwys Cymuned Llanarmon-yn-lâl (903 o etholwyr (rhagamcenir 921), Cymuned Llandegla (424 o etholwyr, rhagamcenir 432) a Chymuned Llanferres (600 o etholwyr, rhagamcenir 612) â chyfanswm o 1,927 o etholwyr (rhagamcenir 1,965) a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb sydd 22% yn uwch na chymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Mae adran etholiadol Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal yn cynnwys Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd (700 o etholwyr, rhagamcenir 714) a Chymuned Llangynhafal (516 o etholwyr, rhagamcenir 526) â chyfanswm o 1,216 o etholwyr (rhagamcenir 1,240) a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb sydd 23% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir, a 31% yn is na'r gymhareb 1:1,750. Mae adran etholiadol Llanfair Dyffryn Clwyd/Llangynhafal yn cynnwys Cymuned Bryneglwys (289 o etholwyr, rhagamcenir 295), Cymuned Gwyddelwern (425 o etholwyr, rhagamcenir 434), Cymuned Llanelidan (251 o etholwyr, rhagamcenir 256) a Chymuned Llanfair Dyffryn Clwyd (891 o etholwyr, rhagamcenir 909) â chyfanswm o 1,856 o etholwyr (rhagamcenir 1,894) a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb sydd 18% uwchlaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Ystyriasom y byddai'n ddymunol aildrefnu'r cyfuniad o gymunedau sy'n llunio'r adrannau etholiadol yn yr ardal hon er mwyn cyflawni gwelliannau mewn cydraddoldeb etholiadol.

5.13 Byddai cyfuno adrannau etholiadol Llanarmon-yn-lâl/Llandegla a Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal gyda Chymuned Bryneglwys (o adran etholiadol Llanfair Dyffryn Clwyd/Llangynhafal) yn llunio adran etholiadol newydd â 3,432 o etholwyr (rhagamcenir 3,500), a phe bai 2 gynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:1,716 sydd 8% yn is na chymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Mae cysylltiadau mynediad da rhwng y Cymunedau hyn ac maent i gyd o natur wledig debyg.

5.14 Nodasom y sylwadau a wnaed ynghylch adrannau etholiadol gwledig yn y gynrychiolaeth gan Gyngor Sir Ddinbych. Gwnaeth y Cyngor sylw ar faint rhai o'r adrannau gwledig presennol, a mynegodd bryderon ynglŷn â'r arolwg yn creu ardaloedd etholiadol hyd yn oed yn fwy. Mynegwyd y farn ganddynt hefyd fod cynrychiolaeth un aelod mewn adrannau gwledig yn gweithio'n dda, ac na fyddai adrannau gwledig aml-aelod yn cael croeso gan y cyhoedd. Rydym ni o'r farn, fodd bynnag, rhwng pob dim, fod y gwelliant o ran cydraddoldeb etholiadol a ddaw yn sgil y cynnig hwn yn gorbwyso'r anawsterau canfyddedig a all godi yn sgil creu ardal etholiadol fwy a thrwy newid o drefniant un aelod i drefniant aml-aelod. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig felly. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Llan** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Rhuddlan a Thremeirchion

5.15 Mae adran etholiadol Rhuddlan yn cynnwys Cymuned Rhuddlan â 2,960 o etholwyr (rhagamcenir 3,099) a gynrychiolir gan 2 gynghorydd â chymhareb o 1:1,480 sydd

6% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir, ac sydd 15% yn is na'r gymhareb 1:1,750. Mae adran etholiadol gyffiniol Tremeirchion yn cynnwys Cymuned Bodfari (279 o etholwyr, rhagamcenir 285), Cymuned Cwm (260 o etholwyr, rhagamcenir 265), Cymuned Tremeirchion (581 o etholwyr, rhagamcenir 593) a Chymuned Waen (185 o etholwyr, rhagamcenir 189) gyda chyfanswm etholwyr o 1,305 (rhagamcenir 1,332) a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb sydd 17% yn is na chymhareb gyfartalog gyfredol y sir, ac sydd 25% yn is na'r gymhareb 1:1,750. Ystyriasom y byddai'n ddymunol aildrefnu'r cyfuniad o gymunedau sy'n llunio'r adrannau etholiadol yn yr ardal hon er mwyn cyflawni gwelliannau mewn cydraddoldeb etholiadol.

5.16 Byddai cyfuno adran etholiadol Rhuddlan gyda Chymunedau Cwm a'r Waun (o adran etholiadol Tremeirchion) yn llunio adran etholiadol newydd â 3,405 o etholwyr (rhagamcenir 3,553), a phe bai 2 gynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:1,703 sydd 8% yn is na chymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Nodwn fod cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng yr ardaloedd hyn. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Twt Hill** (y castell tomen a beili o'r 11^{eg} ganrif y tu allan i dref Rhuddlan) i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Cefnmeiriadog, Tremeirchion a Threfnant

5.17 Fel yr ystyriwyd ym mharagraff 5.15 uchod, mae adran etholiadol bresennol Tremeirchion yn cynnwys Cymunedau Bodfari, Cwm, Tremeirchion a'r Waun â chyfanswm o 1,305 o etholwyr (rhagamcenir 1,332) a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb o 1:1,305 sydd 17% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir, a 25% yn is na'r gymhareb 1:1,750. Mae adran etholiadol bresennol Trefnant yn cynnwys Cymunedau Trefnant (1,229 o etholwyr, rhagamcenir 1,287) a Chefnmeiriadog (337 o etholwyr, rhagamcenir 344) â chyfanswm o 1,566 o etholwyr a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb o 1:1,566 sydd 1% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir, ac 11% islaw'r gymhareb 1:1,750. Ystyriasom y byddai'n ddymunol aildrefnu'r cyfuniad o gymunedau sy'n llunio'r adrannau etholiadol yn yr ardal hon er mwyn cyflawni gwelliannau mewn cydraddoldeb etholiadol.

5.18 Byddai cyfuno Cymunedau Cefnmeiriadog, Trefnant a Thremeirchion yn llunio adran etholiadol â chyfanswm o 2,128 o etholwyr (rhagamcenir 2,225), a phe bai 1 cynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:2,128 sydd 15% uwchlaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Nodasom fod yr ardaloedd hyn, i'r de o'r A55, yn debyg o ran natur, daearyddiaeth a thopograffeg. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Bach y Graig** (yr adeilad brics cyntaf a adeiladwyd yng Nghymru, gerllaw ffin Tremeirchion a Threfnant) i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Tremeirchion a Llandyrnog

5.19 Fel yr ystyriwyd ym mharagraffau 5.15 a 5.17 uchod, mae adran etholiadol bresennol Tremeirchion yn cynnwys Cymunedau Bodfari, Cwm, Tremeirchion a'r Waun â chyfanswm o 1,305 o etholwyr. Mae adran etholiadol bresennol Llandyrnog yn cynnwys Cymuned Aberchwiler (273 o etholwyr, rhagamcenir 278), Llandyrnog

(847 o etholwyr, rhagamcenir 864) a Llanynys (565 o etholwyr, rhagamcenir 576) â chyfanswm o 1,685 o etholwyr a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb sydd 7% uwchlaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Byddai cyfuno adran etholiadol Llandyrnog gyda Chymuned Bodfari (o adran etholiadol Tremeirchion) yn llunio adran etholiadol gyda 1,964 o etholwyr (rhagamcenir 2,003), a phe bai 1 cynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:1,964 sydd 6% uwchlaw cymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Llandyrnog** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Bodelwyddan a Llanelwy

5.20 Mae Cymuned Llanelwy wedi'i rhannu yn ddwy adran etholiadol, sef Dwyrain Llanelwy a Gorllewin Llanelwy. Mae gan Ddwyrain Llanelwy 1,337 o etholwyr (rhagamcenir 1,438) a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb sydd 15% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir a 24% islaw'r gymhareb 1:1,750. Mae gan Orllewin Llanelwy 1,339 o etholwyr (rhagamcenir 1,402) a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb sydd hefyd 15% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Mae adran etholiadol Bodelwyddan yn cynnwys Cymuned Bodelwyddan gyda 1,651 o etholwyr (rhagamcenir 1,728) a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb sydd 5% uwchlaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir a 6% islaw'r gymhareb 1:1,750. Byddai cyfuno dwy adran etholiadol Llanelwy ac adran etholiadol Bodelwyddan yn llunio adran etholiadol gyda 4,327 o etholwyr (rhagamcenir 4,568), a phe bai 2 gynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:2,164 sydd 17% uwchlaw cymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Nodwn fod yr A55 yn darparu cyswllt ffordd rhagorol rhwng y ddwy ardal hon. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Llanelwy** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Canol Dinbych a Dinbych Uchaf a Henllan

5.21 Mae adran etholiadol Canol Dinbych yn cynnwys ward Ganolog Cymuned Dinbych â 1,443 o etholwyr (rhagamcenir 1,511) a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb sydd 9% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir, ac 14% islaw'r gymhareb 1:1,750. Mae adran etholiadol gyffiniol Dinbych Uchaf a Henllan yn cynnwys ward Uchaf Cymuned Dinbych (1,837 o etholwyr, rhagamcenir 2,113) a Chymuned Henllan (678 o etholwyr, rhagamcenir 710) â chyfanswm o 2,515 o etholwyr (rhagamcenir 2,823) a gynrychiolir gan 2 gynghorydd, sef cymhareb o 1:1,258 sydd 20% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir.

5.22 Nodasom y gynrychiolaeth gan Gyngor Sir Ddinbych sy'n awgrymu cyfuno Cymuned Henllan gyda chymunedau cyfagos Cefn Meiriadog a Threfnant i lunio adran etholiadol. Byddai'r awgrym hwn yn creu adran etholiadol â chyfanswm o 2,244 o etholwyr (rhagamcenir 2,341), a phe bai 1 cynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:2,244, a phe bai 2 gynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:1,122. Nodasom hefyd yr awgrym gan Grŵp Ceidwadwyr Cyngor Sir Ddinbych i gyfuno adran etholiadol bresennol Canol Dinbych gydag adran etholiadol bresennol Dinbych Uchaf a Henllan i lunio adran newydd i'w hailenwi yn Dinbych a Henllan. Byddai'r awgrym hwn yn creu adran

etholiadol â chyfanswm o 3,958 o etholwyr (rhagamcenir 4,334), a phe bai 2 gynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:1,979.

5.23 Ystyriasom y byddai'n ddymunol aildrefnu'r cyfuniad o gymunedau a'r wardiau cymunedol sy'n llunio'r adrannau etholiadol yn yr ardal hon er mwyn cyflawni gwelliannau mewn cydraddoldeb etholiadol. O'r ddau awgrym a wnaed mewn perthynas â Chymuned Henllan, ystyriwn mai cyfuno Canol Dinbych a Dinbych Uchaf a Henllan yw'r un mwyaf priodol, gan ei fod yn rhoi gwell lefel o gydraddoldeb etholiadol, ac mae'n cadw cysylltiadau lleol presennol. Cynigiwn felly adran etholiadol sy'n cynnwys wardiau Canolog ac Uchaf Cymuned Dinbych a Chymuned Henllan â chyfanswm o 3,958 o etholwyr (rhagamcenir 4,334) a gynrychiolir gan 2 gynghorydd, sef cymhareb o 1:1,979 sydd 7% uwchlaw cymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Byddai'r cyfuno hwn yn gweld gostyngiad o 1 cynghorydd yn cynrychioli'r ardal, ond mae'n gwella'r cydraddoldeb etholiadol. Nodasom yr awgrym i enwi'r adran etholiadol yn Dinbych a Henllan, ond, ar y cyd â'n bwriad i newid enw Dinbych Isaf (5.24), rydym wedi awgrymu enw gweithredol **Gorllewin Dinbych a Henllan**. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Dinbych Isaf

5.24 Nid oes unrhyw newid yn cael ei awgrymu i'r trefniadau etholiadol ar gyfer adran etholiadol bresennol Dinbych Isaf. Fodd bynnag, awgrymir newid enw i **Ddwyrain Dinbych** ar y cyd â'r enw Gorllewin Dinbych a Henllan a awgrymwyd ar gyfer yr adran etholiadol gyffiniol (fel a gynigir yn 5.23).

Rhuthun a Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern

5.25 Mae adran etholiadol Rhuthun yn cynnwys Cymuned Rhuthun â 4,202 o etholwyr (rhagamcenir 4,614) a gynrychiolir gan 3 cynghorydd, sef cymhareb o 1:1,401 sydd 11% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir, ac 20% islaw'r gymhareb 1:1,750. Er mwyn lleihau lefel y gwahaniaeth, ystyriasom naill ai newid lefel y gynrychiolaeth yn Rhuthun neu gyfuno adran etholiadol Rhuthun â chymuned gyffiniol sydd â chymhareb uwchlaw'r cyfartaledd sirol.

5.26 Nodasom y gynrychiolaeth gan Grŵp Ceidwadwyr Cyngor Sir Ddinbych i leihau lefel y gynrychiolaeth ar gyfer Rhuthun o 3 cynghorydd i 2. Nodasom y byddai'r awgrym hwn yn newid y gymhareb cynghorydd i etholwyr ar gyfer Rhuthun i 1:2,101 sydd 33% uwchlaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir, a 13% uwchlaw cymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Ystyriasom drefniant arall i gyfuno Rhuthun â chymuned gyffiniol. Mae adran etholiadol Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern yn cynnwys Cymunedau Bryneglwys (289 o etholwyr, rhagamcenir 295), Gwyddelwern (425 o etholwyr, rhagamcenir 434), Llanelidan (251 o etholwyr, rhagamcenir 256) a Llanfair Dyffryn Clwyd (891 o etholwyr, rhagamcenir 909) â chyfanswm o 1,856 o etholwyr (rhagamcenir 1,894) gyda chymhareb sydd 18% uwchlaw'r cyfartaledd sirol cyfredol. Byddai cyfuno adran etholiadol Rhuthun gyda Chymuned gyffiniol Llanfair Dyffryn Clwyd yn llunio adran etholiadol â chyfanswm o 5,093 o etholwyr (rhagamcenir 5,523), a phe bai 3 cynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:1,698 sydd 7% uwchlaw'r cyfartaledd sirol cyfredol a 9% islaw cymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Nodasom fod prif ffordd yn rhedeg trwy

Ruthun a Llanfair Dyffryn Clwyd (yr A525 Ffordd Wrecsam) sy'n cysylltu'r ddwy ardal.

5.27 Ystyriwn mai cyfuno adran etholiadol bresennol Rhuthun gyda Chymuned Llanfair Dyffryn Clwyd yw'r trefniant mwyaf priodol am ei fod yn darparu gwell lefel o gydraddoldeb etholiadol. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Rhuthun Dyffryn Clwyd** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Efenechdyd, Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern a Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

5.28 Mae adran etholiadol Efenechdyd yn cynnwys Cymunedau Efenechdyd (491 o etholwyr, rhagamcenir 501), Betws Gwerful Goch (251 o etholwyr, rhagamcenir 256), Clocaenog (196 o etholwyr, rhagamcenir 200) a Derwen (352 o etholwyr, rhagamcenir 359) â chyfanswm o 1,290 o etholwyr (rhagamcenir 1,316) a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb sydd 18% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Er mwyn gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal, ystyriasom gyfuno adran etholiadol Efenechdyd ag ardaloedd cyffiniol.

5.29 Nodasom y gynrychiolaeth gan Grŵp Ceidwadwyr Cyngor Sir Ddinbych sy'n awgrymu cyfuno adran etholiadol bresennol Efenechdyd gyda Chymuned Gwyddelwern o adran etholiadol bresennol Llanbedr Dyffryn Clwyd / Gwyddelwern. Mae'r grŵp hwn o'r farn bod cysylltiadau cymunedol a chysylltiadau cymdeithasol yn y cymunedau hyn. Byddai'r awgrym hwn yn llunio adran etholiadol â chyfanswm o 1,715 o etholwyr (rhagamcenir 1,750), a phe bai 1 cynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 9% uwchlaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir, ac 8% islaw cymhareb gyfartalog arfaethedig y sir.

5.30 Mae adran etholiadol Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern yn cynnwys cymunedau Bryneglwys, Gwyddelwern, Llanelidan a Llanfair Dyffryn Clwyd. Rydym wedi cynnig, yn 5.27 uchod, fod Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd yn cael ei chynnwys yn adran etholiadol Rhuthun Dyffryn Clwyd ac rydym wedi cynnig, yn 5.13 uchod, fod Cymuned Bryneglwys yn cael ei chynnwys yn adran etholiadol Llan. Trwy gyfuno'r cymunedau sy'n weddill, sef Cymunedau Llanelidan (251 o etholwyr, rhagamcenir 256) a Gwyddelwern (425 o etholwyr, rhagamcenir 434) gydag adran etholiadol Efenechdyd, gellir llunio adran etholiadol â chyfanswm o 1,966 o etholwyr (rhagamcenir 2,006), a phe bai 1 cynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:1,966 sydd 24% uwchlaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Er mwyn gwella'r cydraddoldeb etholiadol, ystyriasom wedyn gyfuno'r ardal hon gydag adran etholiadol gyffiniol Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch.

5.31 Mae adran etholiadol Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch yn cynnwys Cymunedau Cyffylliog (407 o etholwyr, rhagamcenir 415), Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch (855 o etholwyr, rhagamcenir 872) a Nantglyn (272 o etholwyr, rhagamcenir 277) â chyfanswm o 1,534 o etholwyr (rhagamcenir 1,564) a gynrychiolir gan 1 cynghorydd gyda chymhareb sydd 3% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Byddai gan adran etholiadol sy'n cyfuno Cymunedau Efenechdyd, Betws Gwerful Goch, Clocaenog, Derwen, Llanelidan, Gwyddelwern, Cyffylliog, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch a Nantglyn gyfanswm o 3,500 o etholwyr (rhagamcenir 3,570) gyda chymhareb o 1:1,750 sydd 6% islaw cymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Ystyriwn fod y trefniant hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal. Nodwn

fod cysylltiadau trafnidiaeth yn rhedeg ar draws yr ochr orllewinol wledig iawn hon o'r Sir yr ystyriwn eu bod yn rhannu cefndiroedd tebyg, yn yr ystyr bod ganddynt broffiliau topograffaidd ac economaidd tebyg. Felly cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Gorllewin Clwyd** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Canol Prestatyn, Dwyrain Prestatyn a Allt Melyd

5.32 Mae adran etholiadol Canol Prestatyn yn cynnwys ward Ganolog Cymuned Prestatyn â 2,778 o etholwyr (rhagamcenir 2,908) a gynrychiolir gan 2 gynghorydd, sef cymhareb o 1:1,389 sydd 12% yn is na chymhareb gyfartalog gyfredol y sir, a 21% islaw'r gymhareb 1:1,750. Mae adran etholiadol Dwyrain Prestatyn yn cynnwys ward Dwyrain Prestatyn yng Nghymuned Prestatyn â 3,117 o etholwyr (rhagamcenir 3,263) a gynrychiolir gan 2 gynghorydd, sef cymhareb o 1:1,599 sydd 1% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir, a 9% islaw'r gymhareb 1:1,750. Mae adran etholiadol gyffiniol Prestatyn Allt Melyd yn cynnwys ward Allt Melyd yng Nghymuned Prestatyn â 1,560 o etholwyr (rhagamcenir 1,633) a gynrychiolir gan 1 cynghorydd, sef cymhareb o 1:1,560 sydd 1% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir, ac 11% islaw'r gymhareb 1:1,750. Ystyriasom y byddai'n ddymunol aildrefnu'r cyfuniad o wardiau cymunedol sy'n llunio'r adrannau etholiadol yn yr ardal hon er mwyn cyflawni gwelliannau mewn cydraddoldeb etholiadol.

5.33 Byddai cyfuno tair adran etholiadol bresennol Canol Prestatyn, Dwyrain Prestatyn a Allt Melyd yn llunio adran etholiadol â 7,455 o etholwyr (rhagamcenir 7,804), a phe bai 4 cynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:1,864 sydd bron yn gyfartal â chymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Byddai'r ad-drefniant hwn yn gweld gostyngiad o 1 cynghorydd yn cynrychioli'r ardal, ac mae'n gwella'r cydraddoldeb etholiadol. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Dwyrain Prestatyn** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Gogledd Prestatyn a De Orllewin Prestatyn

5.34 Mae adran etholiadol Gogledd Prestatyn yn cynnwys wardiau Gogledd (3,629 o etholwyr, rhagamcenir 3,422) a Gogledd Orllewin (1,398 o etholwyr, rhagamcenir 1,463) yng Nghymuned Prestatyn â chyfanswm o 4,667 o etholwyr (rhagamcenir 4,885) a gynrychiolir gan 3 chynghorydd, sef cymhareb o 1:1,556 sydd 2% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir, ac 11% islaw'r gymhareb 1:1,750. Mae adran etholiadol De Orllewin Prestatyn yn cynnwys ward De Orllewin Prestatyn yng Nghymuned Prestatyn, â 2,833 o etholwyr (rhagamcenir 2,966) a gynrychiolir gan 2 gynghorydd, sef cymhareb o 1:1,417 sydd 10% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir, ac 19% islaw'r gymhareb 1:1,750. Ystyriasom y byddai'n ddymunol aildrefnu'r cyfuniad o wardiau cymunedol sy'n llunio'r adrannau etholiadol yn yr ardal hon er mwyn cyflawni gwelliannau mewn cydraddoldeb etholiadol.

5.35 Byddai cyfuno dwy adran etholiadol Gogledd Prestatyn a De Orllewin Prestatyn yn llunio adran etholiadol â 7,500 o etholwyr (rhagamcenir 7,851), a phe bai 4 cynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:1,875 sydd 1% yn uwch na chymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Byddai'r ad-drefniant hwn yn gweld gostyngiad o 1 cynghorydd yn cynrychioli'r ardal, ac mae'n gwella'r cydraddoldeb etholiadol. Cyflwynwn y cynllun

hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Gorllewin Prestatyn** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Adrannau Etholiadol y Rhyl (Dwyrain y Rhyl, De'r Rhyl, De Ddwyrain y Rhyl, De Orllewin y Rhyl a Gorllewin y Rhyl)

5.36 Mae Cymuned y Rhyl wedi'i rhannu yn 5 o adrannau etholiadol ar hyn o bryd. Mae adran etholiadol Dwyrain y Rhyl yn cynnwys wardiau Brynhedydd (1,634 o etholwyr, rhagamcenir 1,710) a Phlastirion (2,125 o etholwyr, rhagamcenir 2,224) yng Nghymuned y Rhyl, â chyfanswm o 3,759 o etholwyr (rhagamcenir 3,934) a gynrychiolir gan 2 gynghorydd, sef cymhareb o 1:1,880 sydd 19% uwchlaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Mae adran etholiadol De'r Rhyl yn cynnwys ward Derwen yng Nghymuned y Rhyl, â 3,084 o etholwyr (rhagamcenir 3,228) a gynrychiolir gan 2 gynghorydd, sef cymhareb o 1:1,542 sydd 2% islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir, a 12% islaw'r gymhareb 1:1,750. Mae adran etholiadol De Ddwyrain y Rhyl yn cynnwys wardiau Trellewellyn (2,587 o etholwyr, rhagamcenir 2,936) a Thynewydd (3,384 o etholwyr, rhagamcenir 3,546) yng Nghymuned y Rhyl, â chyfanswm o 5,974 o etholwyr (rhagamcenir 6,482) a gynrychiolir gan 3 chynghorydd, sef cymhareb o 1:1,991 sydd 26% uwchlaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Mae adran etholiadol De Orllewin y Rhyl yn cynnwys wardiau Cefndy (2,303 o etholwyr, rhagamcenir 2,411) a Phendyffryn (1,280 o etholwyr, rhagamcenir 1,340) yng Nghymuned y Rhyl, â chyfanswm o 3,583 o etholwyr (rhagamcenir 3,751) a gynrychiolir gan 2 gynghorydd, sef cymhareb o 1:1,792 sydd 13% uwchlaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Mae adran etholiadol Gorllewin y Rhyl yn cynnwys wardiau Bodfor (1,679 o etholwyr, rhagamcenir 1,758) a'r Foryd (1,827 o etholwyr, rhagamcenir 2,101) yng Nghymuned y Rhyl, â chyfanswm o 3,506 o etholwyr (rhagamcenir 3,859) a gynrychiolir gan 2 gynghorydd, sef cymhareb o 1:1,753 sydd 11% uwchlaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Ystyriasom y byddai'n ddymunol aildrefnu'r cyfuniad o wardiau cymunedol sy'n llunio'r adrannau etholiadol y Rhyl er mwyn cyflawni gwelliannau mewn cydraddoldeb etholiadol ar draws yr ardal.

5.37 Nodasom fod Cyngor Sir Ddinbych yn eu cynrychiolaeth wedi nodi bod gan Dde Ddwyrain y Rhyl etholaeth fawr iawn â 5,974 o etholwyr, a gynrychiolir gan 3 aelod, a gofynnodd i'r Comisiwn fod yn gyson o ran y cymarebau etholwyr i gynghorwyr. Nodasom hefyd y gynrychiolaeth gan Gyngor Tref y Rhyl yn awgrymu rhannu adran etholiadol De Ddwyrain y Rhyl yn ddwy adran etholiadol (Rhyl Trellewellyn a Rhyl Ty Newydd), y ddwy'n cael eu cynrychioli gan 2 gynghorydd. Awgrymant hefyd ar gyfer adran etholiadol De Orllewin y Rhyl y dylai ystyriaeth gael ei rhoi i gynyddu nifer y cynghorwyr o 1 i 3, ac ar gyfer adran etholiadol Gorllewin y Rhyl, y dylai ystyriaeth gael ei rhoi hefyd i gynyddu nifer y cynghorwyr o 1 i 3. Awgrymodd Grŵp y Ceidwadwyr, Cyngor Sir Ddinbych, yn ogystal y dylid rhannu De Ddwyrain y Rhyl yn ddwy adran etholiadol (Rhyl Trellewellyn a Rhyl Ty Newydd), y ddwy'n cael eu cynrychioli gan 2 gynghorydd. Nodasom o ganlyniad i'r newidiadau awgrymedig, mai'r gymhareb cynghorydd i etholwyr ar gyfer Rhyl Trellewellyn fyddai 1: 1,294, 1:1,694 ar gyfer Rhyl Ty Newydd, 1:1,194 ar gyfer De Orllewin y Rhyl ac 1:1,753 ar gyfer Gorllewin y Rhyl.

5.38 Ystyriwn nad yw'r newidiadau i'r trefniadau etholiadol a awgrymir gan Gyngor Tref y Rhyl a'r Grŵp Ceidwadwyr yn darparu gwelliannau sylweddol i gydraddoldeb

etholiadol adrannau etholiadol y Rhyl. Cynigiwn drefniadau eraill felly sy'n cyfuno wardiau Cymuned y Rhyl yn 4 adran etholiadol newydd fel yr amlinellir ym mharagraffau 5.39 i 5.42 isod. Byddai'r ad-drefniant hwn yn gweld 11 o gynghorwyr yn cael eu cadw i gynrychioli'r ardal, ac mae'n gwella'r cydraddoldeb etholiadol.

5.39 Byddai cyfuno wardiau Brynhedydd (1,634 o etholwyr, rhagamcenir 1,710), Plastirion (2,125 o etholwyr, rhagamcenir 2,224) a Thynewydd (3,384 o etholwyr, rhagamcenir 3,546) yng Nghymuned y Rhyl yn llunio adran etholiadol â chyfanswm o 7,146 o etholwyr (rhagamcenir 7,480), a phe bai 4 cynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:1,787 sydd 4% islaw cymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Gogledd Ddwyrain y Rhyl** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

5.40 Byddai cyfuno wardiau Pendyffryn (1,280 o etholwyr, rhagamcenir 1,340), a Threllewelyn (2,587 o etholwyr, rhagamcenir 2,936) yng Nghymuned y Rhyl yn llunio adran etholiadol â chyfanswm o 3,867 o etholwyr (rhagamcenir 4,276), a phe bai 2 gynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:1,934 sydd 4% uwchlaw cymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **De Ddwyrain y Rhyl** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

5.41 Byddai cyfuno wardiau Cefndy (2,303 o etholwyr, rhagamcenir 2,411) a Derwen (3,084 o etholwyr, rhagamcenir 3,228) yng Nghymuned y Rhyl yn llunio adran etholiadol â chyfanswm o 5,387 o etholwyr, a phe bai 3 chynghorydd yn ei chynrychioli, byddai ganddi gymhareb o 1:1,796 sydd 3% islaw cymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **De Orllewin y Rhyl** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

5.42 Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u cynnig i'r trefniadau etholiadol ar gyfer adran etholiadol Gorllewin y Rhyl. Rydym, fodd bynnag, yn cynnig newid yr enw i'r canlynol, **Gogledd Orllewin y Rhyl,** i gyfateb ag enwau arfaethedig adrannau etholiadol eraill y Rhyl.

Enwau

5.43 Ar gyfer yr adrannau etholiadol newydd arfaethedig, rydym, er hwylustod wedi rhoi enwau gweithredol iddynt (e.e. Afon Dyfrdwy). Efallai, fodd bynnag, y byddai'n briodol rhoi enwau eraill iddynt a chroesawn awgrymiadau am enwau eraill. Pan awgrymir enwau Saesneg byddem am ystyried hefyd os oes enw Cymraeg cyfatebol.

Crynodeb o'r Trefniadau Arfaethedig

5.44 Mae'r trefniadau etholiadol arfaethedig (fel y dangosir yn Atodiad 4) yn darparu lefel o gydraddoldeb sydd rhwng 9% yn is na chymhareb gyfartalog arfaethedig y sir i 18% yn uwch na'r gymhareb (ar sail y ffigurau etholiadol presennol) gydag ond tair

yn unig o'r adrannau etholiadol â chymhareb sy'n fwy na 10% yn uwch na chymhareb gyfartalog arfaethedig y sir, a bod y 15 sy'n weddill (83%) i gyd yn llai na 10% uwchlaw neu islaw cymhareb gyfartalog arfaethedig y sir. Mae hyn yn cymharu â'r trefniadau etholiadol presennol lle ceir lefel o gydraddoldeb sydd rhwng 40% yn is na chymhareb gyfartalog gyfredol y sir i 26% yn uwch na'r gymhareb a 2 adran etholiadol (7%) â chymarebau yn fwy na 25% uwchlaw neu islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir. Mae 17 adran etholiadol (57%) â chymarebau sydd rhwng 10% a 25% yn uwch na chymhareb gyfartalog gyfredol y sir, ac mae'r 11 (37%) o adrannau etholiadol sy'n weddill â chymarebau sydd yn llai na 10% uwchlaw neu islaw cymhareb gyfartalog gyfredol y sir.

6. CYNIGION

6.1. Cynigiwn gyngor o 40 o aelodau a 18 adran etholiadol fel y'u nodir yn Atodiad 5. At ddibenion cymharu, gwelir y trefniadau etholiadol presennol ar gyfer Sir Ddinbych yn Atodiad 2. Mae ffiniau'r adrannau etholiadol arfaethedig yn felyn ar y map a osodir gyda'r Adroddiad hwn yn Swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych ac yn Swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd.

6.2. Ein sylwadau cychwynnol ar y trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ddinbych yw'r cynllun drafft hwn a chroesawn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r cynigion hyn. Byddwn yn ystyried yn ofalus yr holl gynrychiolaethau a gyflwynir i ni cyn llunio'n cynigion terfynol a'u cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

7. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

7.1. Dylid anfon pob sylw ar y cynllun drafft hwn at:

Yr Ysgrifennydd
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

heb fod yn hwyrach na 22 Rhagfyr 2009.

MR P J WOOD (Cadeirydd)

Y PARCH. HYWEL MEREDYDD DAVIES BD (Dirprwy Gadeirydd)

Mr D J BADER (Aelod)

E H LEWIS BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)

Hydref 2009

Rhestr o Dermau a Ddefnyddir yn y cyfarwyddyd

Arolwg o Ffiniau	Arolwg lle mae'r Comisiwn yn adolygu ffiniau ardal llywodraeth leol
Blociau adeiladu	Gan fod gofyn bod cymunedau a (lle maent yn bodoli) wardiau cymunedol sefyll mewn un adran etholiadol, cânt eu defnyddio fel blociau adeiladu ar gyfer yr adrannau etholiadol
Comisiwn	Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Maint y cyngor	Nifer y cynghorwyr a etholir i'r cyngor
Cyfarwyddiadau	Cyfarwyddiadau a roddwyd i'r Comisiwn gan y Llywodraeth o dan Adran 59 Deddf 1972
Trefniadau etholiadol	Faint o gynghorwyr y dylid eu cael ar gyngor ardal llywodraeth leol, y rhannau y dylid rhannu'r ardal iddynt at bwrpas ethol cynghorwyr, nifer y cynghorwyr ar gyfer pob adran etholiadol, ac enw'r ardal etholiadol
Adrannau etholiadol	Yr adrannau y caiff prif adrannau eu rhannu iddynt at bwrpas ethol cynghorwyr, a elwir weithiau'n wardiau ar lafar
Arolwg etholiadol	Arolwg lle mae'r Comisiwn yn ystyried trefniadau etholiadol ar gyfer ardal llywodraeth leol
Yr etholwyr	Nifer y bobl sydd â'r hawl i bleidleisio mewn ardal llywodraeth leol
Llywodraeth	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Y rhai â diddordeb	Unigolyn neu gorff sydd â diddordeb yng nghanlyniadau adolygiad etholiadol fel y prif gyngor dan sylw, Aelodau Seneddol lleol a phleidiau gwleidyddol, a chynghorau cymuned a thref
Adran aml-aelod	Adran etholiadol mewn prif ardal a gynrychiolir gan fwy nag un cynghorydd
Gorchymyn	Gorchymyn a wneir gan y Llywodraeth sy'n gweithredu cynigion y Comisiwn, naill fel y'u cyflwynwyd neu wedi'u haddasu

Prif ardal	Ardal a lywodraethir gan brif gyngor: yng Nghymru, Sir neu Fwrdeistref Sirol
Prif gyngor	Yng Nghymru, un o'r awdurdodau unedol: Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol
Ymatebydd	Corff neu unigolyn sy'n ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn drwy wneud cynrychiolaethau neu gynnig cynigion amgen
Rheolau	Rheolau y bydd y Comisiwn yn eu dilyn wrth ystyried trefniadau etholiadol, a osodir allan yn Atodlen 11 Deddf 1972
Adran un aelod	Adran etholiadol prif awdurdod a gynrychiolir gan un cynghorydd
Deddf 1972	Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1994
Deddf 1994	Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994
Awdurdod Unedol	Prif gyngor - un haen o lywodraeth leol, sy'n gyfrifol am yr holl swyddogaethau llywodraethol (neu bron pob un ohonynt) yn ei ardal; a gymerodd le system dwy haen cynghorau sir a chynghorau dosbarth yng Nghymru: Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol

Rhif	ENW	DISGRIFIAD	NIFER O'R GYNGHORWYR	ETHOLWYR 2009	CYMHAREB 2009	% amrywiaeth o gymharu â chyfartaledd y Sir	ETHOLWYR 2014	CYMHAREB 2014	% amrywiaeth o gymharu â chyfartaledd y Sir
1	Bodelwyddan	Cymuned Bodelwyddan	1	1,651	1,651	5%	1,728	1,728	4%
2	Corwen	Cymuned Corwen	1	1,889	1,889	20%	1,927	1,927	16%
3	Canol Dinbych	Ward Ganolog o Gymuned Dinbych	1	1,443	1,443	-9%	1,511	1,511	-9%
4	Dinbych Isaf	Ward Isaf o Gymuned Dinbych	2	3,503	1,752	11%	3,667	1,834	10%
5	Dinbych Uchaf/ Henllan	Ward Uchaf o Gymuned Dinbych a Chymuned Henllan	2	2,515	1,258	-20%	2,823	1,412	-15%
6	Diserth	Cymuned Diserth	1	1,861	1,861	18%	1,948	1,948	17%
7	Efenechdyd	Cymunedau Betws Gwerful Goch, Clocaenog, Derwen ac Efenechdyd	1	1,290	1,290	-18%	1,316	1,316	-21%
8	Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	Cymunedau Llanarmon-yn-Iâl, Llandegla and Llanferres	1	1,927	1,927	22%	1,965	1,965	18%
9	Llanbedr Dyffryn Clwyd/ Llangynhafal	Cymunedau Llanbedr Dyffryn Clwyd a Llangynhafal	1	1,216	1,216	-23%	1,240	1,240	-25%
10	Llandrillo	Cymunedau Cynwyd a Llandrillo	1	952	952	-40%	971	971	-42%
11	Llandyrnog	Cymunedau Aberchwiler, Llandyrnog a Llanynys	1	1,685	1,685	7%	1,718	1,718	3%
12	Llanfair Dyffryn Clwyd/ Gwyddelwern	Cymunedau Bryneglwys, Gwyddelwern, Llanelidan a Llanfair Dyffryn Clwyd	1	1,856	1,856	18%	1,894	1,894	14%
13	Llangollen	Cymunedau Llangollen a Llandysilio	2	3,347	1,674	6%	3,495	1,748	5%
14	Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	Cymunedau Cyffylliog, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch a Nantglyn	1	1,534	1,534	-3%	1,564	1,564	-6%
15	Prestatyn Allt Melyd	Ward Allt Melyd o Gymuned Prestatyn	1	1,560	1,560	-1%	1,633	1,633	-2%
16	Canol Prestatyn	Ward Ganolog o Gymuned Prestatyn	2	2,778	1,389	-12%	2,908	1,454	-13%
17	Dwyrain Prestatyn	Ward Dwyrain o Gymuned Prestatyn	2	3,117	1,559	-1%	3,263	1,632	-2%
18	Gogledd Prestatyn	Wardiau'r Gogledd a'r Gogledd Orllewin o Gymuned Prestatyn	3	4,667	1,556	-2%	4,885	1,628	-2%

Atodiad 2

Rhif	ENW	DISGRIFIAD	NIFER O'R GYNGHORWYR	ETHOLWYR 2009	CYMHAREB 2009	% amrywiaeth o gymharu â chyfartaledd y Sir	ETHOLWYR 2014	CYMHAREB 2014	% amrywiaeth o gymharu â chyfartaledd y Sir
19	De Orllewin Prestatyn	Ward y De Orllewin o Gymuned Prestatyn	2	2,833	1,417	-10%	2,966	1,483	-11%
20	Rhuddlan	Cymuned Rhuddlan	2	2,960	1,480	-6%	3,099	1,550	-7%
21	Dwyrain Y Rhyl	Wardiau'r Brynhedydd a Plastirion o Gymuned Y Rhyl	2	3,759	1,880	19%	3,934	1,967	18%
22	De Y Rhyl	Ward Derwen o Gymuned Y Rhyl	2	3,084	1,542	-2%	3,228	1,614	-3%
23	De Ddwyrain Y Rhyl	Wardiau'r Ty Newydd a Trellewelyn o Gymuned Y Rhyl	3	5,974	1,991	26%	6,482	2,161	30%
24	De Orllewin Y Rhyl	Wardiau Pendyffryn a'r Cefndy o Gymuned Y Rhyl	2	3,583	1,792	13%	3,751	1,876	13%
25	Gorllewin Y Rhyl	Wardiau'r Foryd a'r Bodfor o Gymuned Y Rhyl	2	3,506	1,753	11%	3,859	1,930	16%
26	Ruthun	Cymuned Ruthun	3	4,202	1,401	-11%	4,614	1,538	-8%
27	Dwyrain Llanelwy	Ward y Dwyrain o Gymuned Llanelwy	1	1,337	1,337	-15%	1,438	1,438	-14%
28	Gorllewin Llanelwy	Ward y Gorllewin o Gymuned Llanelwy	1	1,339	1,339	-15%	1,402	1,402	-16%
29	Trefnant	Cymunedau Cefnmeiriadog a Threfnant	1	1,566	1,566	-1%	1,631	1,631	-2%
30	Tremeirchion	Cymunedau Bodfari, Y Cwm, Tremeirchion a'r Waun	1	1,305	1,305	-17%	1,332	1,332	-20%
		CYFANSYMIAU:	47	74,239	1,580		78192	1,664	

Y gymhareb yw nifer yr etholwyr i bob cynghorydd

Cyflwynwyd y ffigurau ar gyfer nifer yr etholwyr gan Gyngor Sir Ddinbych

	2009		**2014**	
Mwy na + neu - 50% o gyfartaledd y Sir	0	0%	0	0%
Rhwng + neu - 25% a + neu - 50% o gyfartaledd y Sir	2	7%	3	10%
Rhwng + neu- 10% a + neu- 25% o gyfartaledd y Sir	17	57%	15	50%
Rhwng 0% a + neu - 10% o gyfartaledd y Sir	11	37%	12	40%

Atodiad 2

I S - D D E D D F W R I A E T H

2009 RHIF 2

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Cyfarwyddiadau i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru 2009

Gwnaed	*2009*
Yn dod i rym	*2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cyfarwyddiadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 59(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru 2009.

(2) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Rhoddir y Cyfarwyddiadau hyn i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr "y Comisiwn" (*"the Commission"*) yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru; ac

ystyr "y Ddeddf" (*"the Act"*) yw Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Adrannau Amlaelod

3. Yn unol â pharagraff 1A(3) o Atodlen 11 i'r Ddeddf(**3**) mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod yn rhaid i'r Comisiwn ystyried pa mor ddymunol fyddai adrannau etholiadol amlaelod ym mhob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol(**4**) yn y prif ardaloedd yng Nghymru a grybwyllir yn adran 20, Atodlen 4 i'r Ddeddf.

---

(1) 1972 p.70.

(2) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a pharagraff 30 (1) a (2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(3) Fel y'i mewnosodwyd gan adran 7(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1994.

(4) Fel y cyfeirir atynt yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, adran 20, Atodlen 4, a amnewidir gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, adran 1(2), Atodlen 1, paragraff 2.

Adolygu trefniadau etholiadol

4. Yn unol ag adran 59(1) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru'n rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Comisiwn er mwyn ei gyfarwyddo yn y gwaith o adolygu trefniadau etholiadol y mae'n ofynnol o dan adran 55 o'r Ddeddf iddo ei wneud —

(a) Ystyrir bod angen isafswm o 30 o gynghorwyr ar gyfer rheoli'n briodol fusnes cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

(b) Ystyrir bod angen uchafswm o 75 o gynghorwyr fel arfer i reoli'n briodol fusnes cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, fel y byddo'r risg o gael cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol anhylaw ac anodd ei drin mor fach â phosibl;

(c) Ystyrir y dylid amcanu at gael adrannau etholiadol â chymhareb cynghorwyr i etholwyr nad yw'n llai na 1:1750;

(ch) Ystyrir na ddylid penderfynu newid patrwm presennol adrannau amlaelod ac adrannau un aelod yn yr ardaloedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 3 o'r Cyfarwyddiadau hyn ond pan gefnogir y cyfryw gynigion yn gyffredinol gan yr etholwyr, i'r graddau y gellir gwybod safbwyntiau'r etholwyr er mwyn bodloni'r gofyniad am ymgynghori a geir yn adran 60 o'r Ddeddf;

(d) Ystyrir bod yn rhaid i'r Comisiwn, pan fydd yn cynnal adolygiadau o dan Ran 4 o'r Ddeddf, gydymffurfio â pharagraff 1A o Atodlen 11 i'r Ddeddf ac â'r Cyfarwyddiadau hyn.

Adroddiadau ar adolygu trefniadau etholiadol

5. Yn unol ag adran 58(1) o'r Ddeddf mae Gweinidogion Cymru'n cyfarwyddo bod yn rhaid cyflwyno i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin 2011 adroddiadau a baratowyd gan y Comisiwn mewn cysylltiad ag adolygu trefniadau etholiadol mewn perthynas â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref lleol yng Nghymru .

Llofnodwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Dyddiad 13/1/ 2009

12 Mai 2009

Cyfarwyddiadau ynglŷn ag Arolygon o Drefniadau Etholiadol

Rwy'n ymwybodol eich bod chi wedi cychwyn gwaith rhagarweiniol yn y cylch o arolygon o drefniadau etholiadol ym mhob un o'r prif gynghorau. Mae cyflwyniadau a dderbyniais gan lywodraeth leol yn awgrymu i mi eich bod chi efallai wedi dehongli fy nghyfarwyddiadau i fod yn fwy cyfarwyddol na'r rhai a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym 1995 cyn y cylch adolygu diwethaf. Rwyf eisiau ei gwneud hi'n eglur mai nid felly y mae.

Cyhoeddwyd y cyfarwyddiadau er arweiniad i chi ac ni ddylid eu hystyried yn orchmynion. Ar lawer cyfrif - yn neilltuol, mewn perthynas â'r ardaloedd sy'n addas ar gyfer adrannau ag aelodau lluosog a'r amserlen - roedd y cyfarwyddiadau diwethaf yn fwy cyfarwyddol ond mewn perthynas â mater canolog y gymhareb rhwng cynghorwyr ac etholwyr, mae'r geiriad yn union debyg. Mae hyn yn golygu bod y gymhareb yn parhau fel nod i weithio tuag ato ac nid fel nod i'w gyflawni ym mhob achos. Wrth wneud hyn, dylid rhoi sylw i gymunedau lleol yn cael eu cynrychiolwyr canfyddadwy eu hun, hyd yn oed ble nad yw'r ffigwr dangosol o 1,750 o etholwyr/cynghorydd bob amser yn gyraeddadwy.

Wrth gwrs, rwy'n cydnabod er 1995 rydym wedi gweld cyflwyno trefniadau gweithredol neu amgen ymhlith prif gynghorau, ac efallai byddant yn arwyddocaol o ran nifer y cynghorwyr sydd eu hangen i wneud cyngor yn hollol ymarferol. Hefyd cafodd cyfarwyddiadau 1995 eu cyflwyno ar adeg pan oedd ad-drefnu'n digwydd, mewn awyrgylch gwleidyddol gwahanol i'r hyn sy'n bodoli nawr.

Yn olaf, hoffwn dynnu sylw at yr amodiad yn Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid ystyried yr angen i sefydlogi ffiniau sy'n hawdd eu hadnabod ac sy'n cydnabod cysylltiadau'r gymuned leol.

Rwy'n dymuno'n dda i chi yn y broses adolygu.

Yn gywir

Cyfieithiad Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yw hwn o lythyr gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

CRYNODEB O GYNRYCHIOLAETHAU CYCHWYNNOL

Ysgrifennodd **Cyngor Sir Ddinbych** grynodeb o farnau a fynegwyd gan gynghorwyr, a dyma oedd y barnau cyffredinol:

- Mae cytundeb cyffredinol na ddylid gostwng nifer y cynghorwyr gan yr ystyriai aelodau bod y llwyth gwaith presennol yn mynd yn anodd ei drin, a phe bai gostyngiad yn nifer y cynghorwyr byddai mwy o ofynion ar yr aelodau. Byddai hyn yn arbennig o wir pe bai rôl cynghorwyr yn cael ei hehangu i wneud gwaith craffu priodol gyda phartneriaethau ac ati.
- Cyflwynodd un aelod gynrychiolaeth ar wahân ynglŷn â gostwng nifer y cynghorwyr, gan ddweud ei bod yn bwysig pwysleisio ei bod yn bwysig denu llawer o grwpiau o wahanol oed er mwyn cael cyngor sy'n gynrychiolaeth dda o'r boblogaeth. Anfantais hynny yw bod rhaid i gynghorwyr ifanc barhau â'u cyflogaeth, ac felly nid ydynt ar gael ar gyfer llawer o'r ymrwymiadau ychwanegol sy'n dod i ran yr aelodau. Mae'r rheiny sydd â rhywfaint o amser sbâr yn gorfod mynychu mwy a mwy o gyfarfodydd ychwanegol. Pan fydd un neu ddau o gynghorwyr yn sâl, mae'r pwysau'n dechrau cynyddu ac ni ellir bodloni'r cworymau. Mae hwn yn rheswm pwysig dros beidio â gostwng nifer yr aelodau. Yn ei grŵp ef, mae ganddynt o leiaf 4 aelod sydd mewn cyflogaeth amser llawn. Mae 2 neu 3 gan yr Annibynwyr, ac mae hyn yn amlhau yn fuan ac yn lleihau cryfder gwaith craffu priodol.
- Dylai'r Comisiwn roi sylw penodol i deneurwydd y boblogaeth mewn adrannau gwledig; ni fyddai unrhyw ostyngiad yn niferoedd y cynghorwyr mewn ardaloedd gwledig na gweithredu adrannau etholiadol gwledig mawr yn cynorthwyo'r Cyngor yn ei nod o 'Ddod â'r Cyngor yn agosach at y Gymuned'.
- Teimlwyd bod rhai o'r adrannau etholiadol presennol yn fawr iawn ar hyn o bryd, a bod hynny'n golygu llawer o deithio; teimlwyd hefyd na ddylai'r arolwg greu adrannau gwledig mwy ar gyfartaledd.
- Roedd cytundeb cyffredinol bod cynrychiolaeth un aelod mewn adrannau gwledig yn gweithio'n dda, ac na fyddai adrannau gwledig aml-aelod yn cael croeso gan y cyhoedd.
- Dylai'r Comisiwn ystyried dwysedd y boblogaeth a'r ffaith fod trosiant uchel o drigolion dros dro mewn rhai adrannau etholiadol, ac nad adlewyrchir hynny yn yr ystadegau etholiadol. Hefyd, dylai fod ystyriaeth arbennig mewn ardaloedd trefol lle mae mewnlifiad tymhorol mawr o dwristiaid. Nid adlewyrchir y rhain yn y ffigurau etholiadol; fodd bynnag, mae aelodau lleol yn diwallu'u hanghenion yn aml.
- Dylai'r Comisiwn edrych ar gynyddu nifer y cynghorwyr mewn ardaloedd trefol mawr, yn enwedig lle mae twf o ran tai yn yr arfaeth.
- Roedd y Cyngor eisiau tynnu sylw at rai anghysonderau lle mae rhai trefi wedi'u cynnwys o fewn adran etholiadol, tra bo trefi cyfagos wedi'u rhannu'n nifer o adrannau.

Ymhellach i'r barnau cyffredinol a restrir uchod, roedd dwy farn fanylach hefyd, fel a ganlyn:

- De Ddwyrain y Rhyl – mae yma etholaeth fawr iawn ar hyn o bryd â 5,974 o etholwyr a gynrychiolir gan 3 aelod. Teimlwyd y dylai'r Comisiwn fod yn gyson o ran cymarebau etholwyr i gynghorwyr, gan fod nifer is o etholwyr gan y ddwy adran etholiadol arall a gynrychiolir gan dri chynghorydd.
- Cymuned Henllan – Fe'i cynrychiolir ar hyn o bryd, ynghyd â ward Uchaf Cymuned Dinbych, yn adran etholiadol aml-aelod Dinbych Uchaf/Henllan. Dynododd un o'r aelodau lleol mai dymuniad Cyngor Cymuned Henllan, yn ei drafodaethau â'r Cyngor, fyddai cael eu cynrychioli gyda chymunedau cyfagos Cefn Meiriadog a Threfnant o fewn un adran etholiadol. Os felly, a bod ward Uchaf Cymuned Dinbych wedi'i chynnwys yn ei hadran etholiadol ei hun, yna byddai'r ffigurau amddifadedd ar gyfer Dinbych Uchaf hyd yn oed yn uwch.

Ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Cefn Meiriadog** yn dweud y byddent yn dymuno aros fel ag y maent, gan eu bod yn teimlo fod hynny'n rhoi gwasanaeth mwy personol i'r gymuned. Mae'n ardal wledig, a phe bai'n cael ei hymestyn, byddai'n anoddach i'w Cynghorydd gyrraedd yr holl etholwyr.

Gwnaeth **Cyngor Cymuned Cynwyd** gynrychiolaeth yn dweud ei fod yn rhan o ardal etholiadol Llandrillo a Chynwyd, sef ardal sydd yn endid ei hun gyda nodweddion arbennig. Yn ddelfrydol nid ydynt yn gweld angen am newid, ac maent yn dweud y dylid talu sylw i'r pwyntiau canlynol:

- Unigoliaeth ddiguro'r ardal.
- Cymuned naturiol.
- Y Gymraeg a'i diwylliant (y Ward â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y Sir).
- Pryderon a dymuniadau lleol.
- Bydd nifer yr etholwyr yn cynyddu yn y dyfodol agos.
- Mae Ysgol Gynradd Cynwyd wedi cynyddu o 54 yn 2006 i 58 yn 2007 ac i 68 yn 2008. Ar hyn o bryd, mae 74 o blant yno, gyda mwy i ddod yn y dyfodol agos.
- Mae datblygiad newydd o 20 o dai wedi dechrau, gyda golwg ar adeiladu Tai Fforddiadwy, ar waith ar hyn o bryd, (mae cais wedi'i wneud i'r Cynulliad am rywfaint o'r arian sydd ar gael).
- Mae ffatri Ifor Williams yn cyflogi rhyw 400, ac mae'r Brif Swyddfa yng Nghynwyd. Pan fydd y Dirwasgiad ar ben, mae'n siŵr y bydd hynny'n cynyddu.
- Mae'r Felin Goed yn Llandrillo yn cyflogi nifer dda o bobl. Mae'n ddatblygiad o 13 o dai yn Llandrillo. Mae wyth o dai gwag ar werth.
- Mae Ysgol Llandrillo yn dal ei thir (43).
- Yn y dyfodol agos, disgwylir y bydd nifer yr etholwyr yn codi'n uwch na 1,100.
- Mae eich awgrym o gael un Cynghorydd i bob 1,750 o etholwyr yn rhy uchel.
- Dylid gofyn i chi ystyried natur ardaloedd gwledig, sy'n denau eu poblogaeth, felly gellid gostwng y gymhareb yn yr ardaloedd hyn i nifer llai na 1,750 o etholwyr.
- Ni ddylid pennu lleiafswm mewn perthynas â nifer.
- Dylai unrhyw newid fod er lles yr ardal a'r Cyngor Sir.
- Gobeithio y cawn gyfle'n fuan i holi Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

Ysgrifennodd **Cyngor Tref y Rhyl** gydag awgrymiadau i newid ffiniau wardiau yn y Rhyl, ond nid yw hynny'n rhan o gylch gwaith yr arolwg hwn. Awgrymasant hefyd fod rhai niferoedd aelodau yn newid ar gyfer adrannau etholiadol fel a ganlyn:

- De Ddwyrain y Rhyl – argymhellwyd bod y Comisiwn yn ystyried rhannu'r ward yn ddwy adran etholiadol gyda'r un ffiniau â wardiau presennol y cyngor tref (Rhyl Trellewellyn a Rhyl Ty Newydd) ac y dylai pob adran newydd gael ei chynrychioli gan 2 gynghorydd.
- De Orllewin y Rhyl - dylid rhoi ystyriaeth i gynyddu nifer y cynghorwyr o 1 cynghorydd i 3, er mwyn adlewyrchu'r angen ychwanegol am gynghorwyr yn yr ardal honno, fel y dangosir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cynulliad Cymru, a'r nifer uwch o bobl sy'n bresennol ond heb eu nodi ar y Gofrestr Etholwyr.
- Gorllewin y Rhyl – dylid rhoi ystyriaeth i gynyddu nifer y cynghorwyr o 1 i 3 i adlewyrchu'r pwysau ychwanegol sydd ar aelodau yn sgil amddifadedd eithriadol amlwg.

Dywedodd **y Cynghorydd Cefyn H Williams (Adran Etholiadol Llandrillo, Cyngor Sir Ddinbych)** ei fod wedi cyrraedd oed y byddai, pe bai'n parhau mewn iechyd da a phe bai'n cael ei ail-ethol gan y bobl, yn ffodus i gael un etholiad arall. Felly, nid oedd am ymladd ei achos ei hun. Teimlai'n gryf iawn fod rhesymau arbennig pam y dylid cadw'r ward fel ag y mae. Y rhesymau hynny yw:

- Mae'r ward yn un eang, a heb ei mesur yn fanwl, mae'n 7 milltir o hyd o leiaf ac yn achosi cryn anhawster yn ystod etholiad o ran canfasio. Pe bai'r ward yn cael ei chysylltu â ward

Corwen, byddai'r ward yn rhyw 14 milltir o hyd. Byddai hyn yn creu llawer o waith o ran cyfathrebu, hyd yn oed gyda dau gynghorydd.

- Hon yw'r ward hefyd sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y Sir. Mae'n ganran uwch o lawer na Chorwen. Teimlai y dylid ystyried hyn.
- Mae llai na mil o bleidleiswyr ar hyn o bryd, ond mae'n rhagweld y bydd y boblogaeth yn cynyddu cryn dipyn yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, er ei fod yn sylweddoli na fydd yn cyrraedd 1,750. Fodd bynnag, mae datblygiadau yn y ddau bentref yn y ward. Mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar ystâd dai yng Nghynwyd (20) ac mae arolwg o dai fforddiadwy ar fin ei gwblhau. Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Maeshyfryd wedi cynyddu o 54 yn 2006 i 74 yn 2009, ac mae mwy o blant ar fin dechrau yno yn y dyfodol agos. Os yw cau ysgol yn diboblogi ardal, fel y cred llawer o bobl, yna mae'r cynnydd hwn yn siwr o ddenu mwy o drigolion (mae tir eisoes wedi'i neilltuo ar gyfer mwy o dai).
- Ym mhentref Llandrillo mae'r ysgol yn dal ei thir, gyda 43 o ddisgyblion, er bod rhai plant yn gadael i gael addysg trwy gyfrwng y Saesneg yng Ngharrog, sydd yn ward Corwen. Unwaith eto, mae hyn yn dangos y gwahaniaeth ieithyddol rhwng y wardiau. Mae plant eraill yn dod i mewn i Gynwyd i gael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Yn Llandrillo hefyd, mae ystâd dai wrthi'n cael ei hadeiladu (8) ac mae gwaith wedi cychwyn ar lawer o dai unigol (6).
- Mae llawer o fusnesau yn yr ardal, er enghraifft, yr iard goed ffyniannus, wedi dal eu tir yn ystod y dirwasgiad; mae yma ddau fwyty, ac mae un ohonynt (Tyddyn Llan) wrthi'n gwneud enw da iddo'i hun trwy Gymru gyfan, tri maes carafannau, tri thafarn a ffatri cerbydau amaethyddol sy'n cyflogi 400 o weithwyr. Mae llawer o weithwyr y ffatri'n byw y tu allan i'r ardal, ond mae posibilrwydd cryf y bydd rhai ohonynt yn symud i Landrillo yn y dyfodol agos. Mae pwyllgor yn bodoli yng Nghorwen a Llangollen o'r enw Menter Dyffryn Dyfrdwy. Nid yw Cynwyd a Llandrillo yn rhan ohono. Mynyddoedd y Berwyn yw ffin ddwyreiniol yr ardal, ac mae hon yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol tan i chi gyrraedd Corwen, ac mae Cynwyd a Llandrillo mewn Ardal o Harddwch yn unig.

Gorffenna drwy ddweud y bydd angen i'r Comisiwn edrych yn fanwl ar yr ardal yn ystod y pum mlynedd nesaf am fod cynlluniau pellgyrhaeddol eisoes ar waith yng Nghorwen. Pe bai pethau'n cael eu newid nawr, byddai angen i'r Comisiwn ail-werthuso'r trefniadau newydd hyn ar unwaith. Gobeithiai y byddai ei lythyr yn cael effaith gadarnhaol ar ran yr ardal a'i phobl.

Ysgrifennodd **Arweinydd y Grŵp Ceidwadwyr,** Cyngor Sir Ddinbych ar ran y Grŵp Ceidwadwyr gyda chynrychiolaeth gyfunol o farnau cyffredinol aelodau sydd wedi'u mynegi. Teimlwyd bod rhai adrannau gwledig presennol yn fawr iawn ar hyn o bryd, a bod hynny'n golygu llawer o deithio; teimlwyd hefyd na ddylai'r arolwg greu adrannau gwledig mwy ar gyfartaledd. Teimlwyd bod yr adrannau hyn yn cael eu gorgynrychioli o gymharu â'r rheiny mewn ardaloedd trefol. Roedd cytundeb cyffredinol yn y grŵp fod cynrychiolaeth un aelod mewn adrannau gwledig yn gweithio'n dda, ac na fyddai adrannau gwledig aml-aelod yn cael croeso gan y cyhoedd. Gwnaeth y grŵp gynrychiolaethau mewn perthynas â'r ward ganlynol, a'i chynrychiolaeth ar y Cyngor:

- Canol Dinbych – mae'n cael ei gwasanaethu ar hyn o bryd gan un aelod yn cynrychioli 1,411 o etholwyr. Teimla'r Grŵp y gallai'r ward hon gael ei chyfuno â ward bresennol Dinbych Uchaf / Henllan. Gan roi 3,914 o etholwyr i'r ward newydd hon, dylai hon fod yn ward dau aelod gyda chymhareb o 1:1,957. Byddai uno'r ddwy ward yn golygu gostyngiad o un aelod yn Ninbych.
- Dinbych Isaf – i aros fel ag y mae gyda dau gynghorydd a chymhareb o 1:1,727
- Dinbych Uchaf a Henllan – Fel uchod, a'i hailenwi Dinbych a Henllan.
- Efenechdyd - Adran bresennol Efenechdyd ac ychwanegu Cymuned Gwyddelwern (419 o etholwyr) o ward bresennol Llanbedr Dyffryn Clwyd / Gwyddelwern. Teimla'r Grŵp

mai symud y gymuned i mewn i'r ward hon fyddai orau i sicrhau cymhareb ofynnol y Comisiwn o 1:1,750, byddai gan y ward newydd gymhareb o 1:1,726. Mae'n cyfeirio hefyd at y cysylltiadau cymunedol a'r cysylltiadau cymdeithasol yn y cymunedau hyn.

- Llanbedr Dyffryn Clwyd / Gwyddelwern – Dileu Gwyddelwern fel yr amlinellir uchod ac ailenwi yn **Llanbedr Dyffryn Clwyd.**
- De Ddwyrain y Rhyl - Ym marn y grŵp hwn nid oes digon o gynrychiolaeth gan y ward hon yn y cyngor presennol, gyda chymhareb o 1:1,985. Byddai rhannu'r ward ymysg wardiau Cyngor Tref y Rhyl sef Rhyl Trellewellyn a Rhyl Tŷ Newydd yn creu'r angen am aelod ychwanegol i gynrychioli Rhyl Trellewellyn gyda chymhareb o 1:1,279. Byddai gan Rhyl Tŷ Newydd gymhareb o 1:1,698. Teimlai'r grŵp y byddai hyn yn rhannu'r llwyth gwaith yn gyfartal ac yn adlewyrchu'r gynrychiolaeth sydd gan y cymunedau ar hyn o bryd ar Gyngor Tref y Rhyl. Creu aelod newydd a rhannu'r ward yn ddwy. Y Wardiau newydd i'w galw yn **Rhyl Trellewellyn** a **Rhyl Tŷ Newydd**.
- Rhuthun – Ar hyn o bryd mae tref Rhuthun yn cael ei gorgynrychioli, gyda chymhareb o 1:1,403. Nid yw Cyngor Tref Rhuthun wedi'i wardio ar hyn o bryd felly byddai gostyngiad o un yn nifer y Cynghorwyr Sir i gyflawni cymhareb o 1:2,104 yn unioni cynrychiolaeth Rhuthun â hynny a gynigir ar gyfer trefi gwledig eraill yn Sir Ddinbych, fel Dinbych uchod.

Ysgrifennodd **Pennaeth Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llandrillo** ar ran Corf Llywodraethol Ysgol Gynradd Llandrillo ynglŷn â'u pryder ynghylch colli cynrychiolaeth eu Cynghorydd Sir lleol ar gyfer ward Llandrillo a Chynwyd.

Roeddent yn deall bod y Comisiwn yn edrych eto ar nifer yr etholwyr sydd gan y Cynghorwyr Sir ym mhob ward. Ar hyn o bryd, mae gan yr ardal y mae eu cynghorydd yn gyfrifol amdani boblogaeth etholwyr o ryw 950, sy'n is o lawer na'r targed o 1,750.

Mae pwysigrwydd cael cynghorydd lleol yn hanfodol i gymunedau bach. Mae hi'n dweud pe baent yn cael eu cysylltu â ward y dref agosaf, sef Corwen, byddai'r wybodaeth leol sydd gan eu cynghorydd lleol presennol yn cael ei cholli. Mae'r cynghorydd lleol presennol a'r cynghorwyr blaenorol i gyd wedi byw yn y ward, ac roeddent yn adnabod yr ardal a'i phobl. Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â chefnogaeth a phresenoldeb y cynghorydd lleol ar bwyllgorau'r Corff Llywodraethol yn hanfodol.

Byddai colli cefnogaeth ein Cynghorydd Sir yn golled enfawr i Gorff Llywodraethol Ysgol Llandrillo. Byddai'n anodd i unrhyw gynghorydd fod yn gwbl gyfrifol am ardal mor eang. Dywed y byddent yn colli'r gefnogaeth bresennol y maent wedi'i chael dros y blynyddol. Hefyd, amgaeodd ddeiseb gyda 201 o lofnodion yn gwrthwynebu'r syniad bod y ward etholiadol yn cael ei diddymu.

Ysgrifennodd **un o drigolion Sir Ddinbych** i ddweud bod y Comisiwn, yn ei farn ef, wedi pennu nifer yr etholwyr fesul cynghorydd yn rhy drugarog o lawer ar gyfer y rhan fwyaf o Awdurdodau Unedol bach yng Nghymru. Mae'r broblem o gael 47 o gynghorwyr yn Sir Ddinbych wedi'u harwain i'w drin fel cyngor cymuned sydd prin yn cymryd yr olwg gyffredinol. Fe welwch y problemau rydym wedi'u cael ac yn dal i'w cael o fewn y sir. Nid oedd wedi ystyried ei hun erioed fel un sy'n coleddu barn eithafol, ond nid yw'n hoffi'r system o gael cymaint o gynghorwyr. Mae hyn yn sicrhau y byddant yn ymladd, o fewn y cyngor, dros yr hyn sy'n boblogaidd yn eu hardal etholiadol. Trwy leihau cyfanswm nifer y cynghorwyr byddai'n rhaid iddynt fabwysiadu ymagwedd fwy cyffredinol at y llu o broblemau anodd sy'n eu hwynebu. Gadewch i ni beidio â chael tair ardal o fewn Dinbych a Henllan, ond yn hytrach dwy yn unig, ac ni ddylent gynrychioli ardal benodol ond yn hytrach cynrychioli Dinbych a Henllan.

Hyd yn oed os yw yn rhy hwyr i gael y Comisiwn i edrych ar gynigion eraill, gobeithiai y gallai'r Comisiwn ystyried newid system sydd wedi hen ddyddio, sef cynghorwyr yn cynrychioli nifer fach o etholwyr; cyn lleied yw eu diddordeb yn y system, mae'r ganran sy'n pleidleisio adeg etholiadau yn isel iawn.

Ysgrifennodd **un o drigolion Cynwyd** i fynegi ei farn na ddylid uno Llandrillo gyda wardiau cyfagos na chynyddu ei maint mewn unrhyw ffordd. Dywed mai tua 950 yw poblogaeth Llandrillo, sy'n cynnwys Cynwyd, ond o ran ei harwynebedd mae'n rhy fawr, ac mae'n ardal Gymraeg ei hiaith yn bennaf. Mae hefyd ar ben deheuol Sir Ddinbych lle mae democratiaeth leol yn bell iawn, a'r llais lleol yn cael ei anwybyddu i raddau helaeth gan gynghorwyr o'r gogledd sydd mor amlwg ar y cyngor. Mae'n mynd ymlaen i nodi y bydd y boblogaeth leol yn siŵr o godi dros y blynyddoedd i ddod, gan fod y cyflogwr mwyaf yn yr ardal ar fin ehangu.

Dywedodd **un o drigolion Llandrillo** fod pentref Llandrillo yn arbennig iawn ac na ddylai ddioddef ar y cynghorwyr cymwynasgar ac angenrheidiol yn sgil y ffaith nad oes gan yr ardal ddigon o boblogaeth. Dywed ei bod yn wrthun fod rhaid i'r 950 o bobl godi i 1,750 i'w wneud yn ddichonadwy. Teimlai y dylai'r Comisiwn Ffiniau feddwl eto. Mae'n mynd ymlaen i ddweud fod Tywysog Cymru hyd yn oed wedi ymweld â Llandrillo, ac y gall fod achos i apelio ato yntau am help, teimlai'n siŵr y byddai'n hapus i ysgrifennu at y Comisiwn ei hun pe bai'n gofyn iddo. Dywedodd fod y newidiadau awgrymedig wedi gwneud i lawer o'r bobl yn y gymuned arbennig iawn i deimlo'n ofidus a theimlo eu bod yn cael eu gadael allan. Gyda Swyddfeydd Post yn cau, toiledau cyhoeddus wedi cau a blychau ffôn cyhoeddus yn diflannu, teimlai eu bod yn mynd yn ôl mewn amser ac nid ymlaen. Hefyd, amgaeodd ddeiseb ag 16 o enwau arni yn gwrthwynebu'r syniad bod y ward etholiadol yn cael ei diddymu.

Ysgrifennodd **perchennog Parc Carafannau yn Llandrillo** gyda phryder ynghylch bwriad y Comisiwn i ystyried diddymu'r sedd Llywodraeth Leol yn y ward lle mae'n byw ac yn cynnal ei fusnes. Gofynna am ystyriaeth i'r agweddau niweidiol canlynol ar gymunedau Cynwyd a Llandrillo:

- Mae'r ddau blwyf sydd yn y ward mewn ardal wledig fawr ac eang ym mhen deheuol Sir Ddinbych. Mae'r rhan fwyaf o'r gymuned yn Gymraeg ei hiaith ac mae demograffeg cymuned felly yn wahanol iawn i ddemograffeg y ward gyfagos, sef Corwen, sydd yn Saesneg ei hiaith yn bennaf ac yn drefol o ran ei golwg ar bethau. Yr ofn a'r pryder pe bai Corwen yn cael ei uno â Llandrillo yw y byddai'r gynrychiolaeth drefol yn trechu'i chefndryd gwledig, ac yn niweidio'r rheiny sy'n byw yng Nghynwyd a Llandrillo.
- Pe bai'r Comisiwn i ddod i'r casgliad fod y ddwy ward i'w huno, dywed y byddai'n debygol mai'r uchaf o'r ddwy ardal boblog fydd yn llwyddo mewn unrhyw etholiad yn y dyfodol, gan wrthod unrhyw gynrychiolaeth ystyrlon i gymuned wledig felly. Dyfynna enghraifft o'r ffordd y mae cymunedau Cynwyd a Llandrillo wedi dioddef pan gyhoeddodd Croeso Cymru gynllun ar gyfer Dyffryn Dyfrdwy Uchaf. Roedd grantiau ar gael i fentrau twristiaeth amrywiol. Am ryw reswm anesboniadwy, ni chafodd Cynwyd a Llandrillo eu cynnwys, er gwaetha'r ffaith fod y ddau blwyf o fewn Dyffryn Dyfrdwy Uchaf.
- Mae'r rhan fwyaf o dir Cynwyd a Llandrillo yn dir amaethyddol a choedwigaeth, ac mae yno felin lifio a gwneuthurwr trelars mawr sy'n brif gyflogwr llawer o bobl y tu allan i'r ward. O ran amaethyddiaeth, roedd eisiau tynnu sylw at ei phwysigrwydd yn y dyfodol er lles y wlad. Bydd sicrwydd bwyd yn dod yn nodwedd bwysig wrth i boblogaeth y byd gynyddu. Agwedd arall ar ofynion y dyfodol ar gefn gwlad yw effeithiau newid yn yr hinsawdd ar gynhyrchiant bwyd y byd. Roedd eisiau tynnu sylw at bris uchel gwenith yn 2007, a'r rheswm am hynny oedd effeithiau methiant cnydau mewn rhannau amrywiol o'r byd. Dywed ei bod yn bwysig fod llais

cefn gwlad yn cael ei glywed er mwyn sicrhau bod y cyfryw gymunedau yn chwarae eu rhan i sicrhau lles y wlad yn y dyfodol.

Gorffennodd trwy ddweud ei fod yn deall y pwysau sydd ar y Comisiwn, fodd bynnag, mae'n ailadrodd fod cynrychiolaeth wledig i gymunedau anghyfartal llai yn llawn mor bwysig i'r sector hwn o'r boblogaeth ag ydyw i'r gymuned drefol fwy. Gofynna i'r Comisiwn roi ystyriaeth ofalus i unrhyw newidiadau.

SIR DDINBYCH
AELODAETH ARFAETHEDIG
O'R CYNGOR

Rhif	ENW	DISGRIFIAD	NIFER CYNGHORWYR	NIFER ETHOLWYR 2009	CYMHAREB 2009	% amrywiaeth o gymharu â chyfartaledd y Sir	NIFER ETHOLWYR 2014	CYMHAREB 2014	% amrywiaeth o gymharu â chyfartaledd y Sir
1	Afon Dyfrdwy	Cymunedau Cynwyd 462 (471) a Llandrillo 490 (500) a Ward Uchaf Cymuned Corwen 1,244 (1,269)	1	2,196	2,196	18%	2,240	2,240	15%
2	Bach y Graig	Cymunedau Cefnmeiriadog 337 (344) Trefnant 1,229 (1,287) a Thremeirchion 581 (593)	1	2,128	2,128	15%	2,225	2,225	14%
3	Dwyrain Dinbych	Ward Isaf Cymuned Dinbych	2	3,503	1,752	-6%	3,667	1,834	-6%
4	Gorllewin Dinbych a Henllan	Wardiau Canolog 1,443 (1,511) ac Uchaf 1,837 (2,113) Cymuned Dinbych a Chymuned Henllan 678 (710)	2	3,958	1,979	7%	4,334	2,167	11%
5	Diserth	Cymuned Diserth	1	1,861	1,861	0%	1,948	1,948	0%
6	Glyn Dyfrdwy	Cymunedau Llangollen 3,018 (3,159) a Llandysilio 329 (336) a Ward Isaf Cymuned Corwen 645	2	3,992	1,996	8%	4,153	2,077	6%
7	Gorllewin Clwyd	Cymunedau Betws Gwerful Goch 251 (256), Clocaenog 196 (200), Cyffylliog 407 (415), Derwen 352 (359), Efenechdyd 491 (501), Gwyddelwern 425 (434), Llanelidan 251 (256), Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch 855 (872), a Nantglyn 272 (277)	2	3,500	1,750	-6%	3,570	1,785	-9%
8	Llan	Cymunedau Bryneglwys 289 (295), Llanarmon -yn-Iâl 903 (921), Llanbedr Dyffryn Clwyd 700 (714), Llandegla 424 (432), Llanferres 600 (612) a Llangynhafal 516 (526),	2	3,432	1,716	-8%	3,500	1,750	-10%
9	Llandyrnog	Cymunedau Aberchwiler 273 (278), Bodfari 279 (285), Llandyrnog 847 (864) a Llanynys 565 (576)	1	1,964	1,964	6%	2,003	2,003	2%
10	Llanelwy	Cymunedau Bodelwyddan 1,651 (1,728) a Llanelwy 2,676 (2,840)	2	4,327	2,164	17%	4,568	2,284	17%
11	Dwyrain Prestatyn	Wardiau Canolog 2,778 (2,908), Dwyrain 3,117 (3,263) ac Allt Melyd 1,560 (1,633) o Gymuned Prestatyn	4	7,455	1,864	0%	7,804	1,951	0%
12	Gorllewin Prestatyn	Wardiau'r Gogledd 3,269 (3,422), Gogledd Orllewin 1,398 (1,463) a De Orllewin 2,833 (2,966) o Gymuned Prestatyn	4	7,500	1,875	1%	7,851	1,963	0%
13	Gogledd Ddwyrain y Rhyl	Wardiau Brynhedydd 1,634 (1,710), Plastirion 2,125 (2,224) a Thŷ Newydd 3,387 (3,546) o Gymuned y Rhyl	4	7,146	1,787	-4%	7,480	1,870	-4%
14	Gogledd Orllewin y Rhyl	Wardiau'r Bodfor 1,679 (1,758) a'r Foryd 1,827 (2,101) o Gymuned y Rhyl	2	3,506	1,753	-6%	3,859	1,930	-1%
15	De Ddwyrain y Rhyl	Wardiau Pendyffryn 1,280 (1,340) a Threllewellyn 2,587 (2,936) o Gymuned y Rhyl	2	3,867	1,934	4%	4,276	2,138	9%

Atodiad 5

SIR DDINBYCH
AELODAETH ARFAETHEDIG
O'R CYNGOR

Rhif	ENW	DISGRIFIAD	NIFER CYNGHORWYR	NIFER ETHOLWYR 2009	CYMHAREB 2009	% amrywiaeth o gymharu â chyfartaledd y Sir	NIFER ETHOLWYR 2014	CYMHAREB 2014	% amrywiaeth o gymharu â chyfartaledd y Sir
16	De Orllewin y Rhyl	Wardiau'r Cefndy 2,303 (2,411) a Derwen 3,084 (3,228) o Gymuned y Rhyl	3	5,387	1,796	-3%	5,639	1,880	-4%
17	Rhuthun Dyffryn Clwyd	Cymunedau Rhuthun 4,202 (4,614) a Llanfair Dyffryn Clwyd 891 (909)	3	5,093	1,698	-9%	5,523	1,841	-6%
18	Twt Hill	Cymunedau Cwm 260 (265), Rhuddlan 2,960 (3,099) a'r Waun 185 (189)	2	3,405	1,703	-8%	3,553	1,777	-9%
	CYFANSYMIAU:		**40**	**74,239**	**1,856**		**78,193**	**1,955**	

Y gymhareb yw nifer yr etholwyr i bob cynghorydd

Cynhwysir nifer yr etholwyr ar gyfer 2009 a 2014 (mewn cromfachau) yn nisgrifiad yr adrannau etholiadol hynny sy'n cynnwys mwy nag un cymuned / ward gymunedol.

Cyflwynwyd y ffigurau ar gyfer nifer yr etholwyr gan Gyngor Sir Ddinbych

	2009		**2014**	
Mwy na + neu - 50% o gyfartaledd y Sir	0	0%	0	0%
Rhwng + neu - 25% a + neu - 50% o gyfartaledd y Sir	0	0%	0	0%
Rhwng + neu- 10% a + neu- 25% o gyfartaledd y Sir	3	17%	5	28%
Rhwng 0% a + neu - 10% o gyfartaledd y Sir	15	83%	13	72%

Atodiad 5